# Cartrefi Cymunedol Gwynedd

# Datganiadau Ariannol

# Blwyddyn a ddaeth i ben ar y

# 31 Mawrth 2019

**CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF**

## DATGANIADAU ARIANNOL
## BLWYDDYN YN GORFFEN 31 MAWRTH 2019

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|
| Aelodau Bwrdd a Chynghorwyr Proffesiynol | 1 |
| Adroddiad y Bwrdd gan gynnwys yr Adroddiad Strategol | 2 – 14 |
| Adroddiad Archwilwyr Annibynnol | 15 – 18 |
| Datganiad Incwm Cynhwysfawr | 19 |
| Datganiad o Newidiadau mewn Cronfeydd | 20 |
| Datganiad Sefyllfa Ariannol | 21 |
| Datganiad Llif Arian | 22 |
| Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol | 23 – 45 |

## CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF

### AELODAU BWRDD A CHYNGHORWYR PROFFESIYNOL

**AELODAU BWRDD**
Mark Jones (Cadeirydd)
Abigail Tweed (Is-gadeirydd)
Robert Lewis
Paula Jewson
Berwyn Parry-Jones
Linda Campbell (penodwyd Ebrill 2018)
Lynn Rowlands (penodwyd Ebrill 2018)
Cai Larsen (penodwyd Gorffennaf 2018)
Selwyn Hayward (penodwyd Gorffennaf 2018)
Huw Gareth Pritchard (penodwyd Mawrth 2019)
Hywel Eifion Jones (Aelod Cyf-etholedig, penodwyd Mawrth 2019)
Nia Wyn Jeffreys (ymddiswyddo Mehefin 2018)
Alan Field (ymddiswyddo Gorffennaf 2018)
Jill Lawrence (ymddiswyddo Medi 2018)
Dafydd Pritchard (Aelod Cyf-etholedig, ymddiswyddo Tachwedd 2018)
Anne Lloyd-Jones (ymddiswyddo Rhagfyr 2018)
Stephen Churchman (ymddiswyddo Rhagfyr 2018)

**Ysgrifennydd a Swyddfa Gofrestredig**
Aled Davies
Tŷ Coch
Llys y Dderwen, Parc Menai
Bangor, Gwynedd
LL57 4BL

**Swyddogion Gweithredol**
Ffrancon Williams - Prif Weithredwr
Paul McGrady – Cyfarwyddwr Adnoddau (hyd at Mawrth 2019)
Ian Atkinson - Cyfarwyddwr Asedau ac Isadeiledd
Sarah Schofield - Cyfarwyddwr Cwsmeriaid a Chymunedau
Rhys Parry – Cyfarwyddwr Cyllid (ers Gorffennaf 2019)

**Archwilwyr Allanol**
Beever and Struthers
St George's House,
215-219 Chester Road,
Manchester M15 4JE

**Archwilwyr Mewnol**
Mazars
45 Church Street,
Birmingham,
B3 2RT

**Bancwyr**
Barclays Bank plc
One Snowhill,
Queensway,
Birmingham,
B3 2WN

**Cyllidwyr**
Barclays Bank plc
One Snowhill,
Queensway,
Birmingham,
B3 2WN

**Cynghorwyr Ariannol**
JCRA
12 St James's Square
London
SW1Y 4LB

Mae Cartrefi Cymunedol Gwynedd Cyfyngedig yn Gymdeithas Gydweithredol a Budd Cymunedol wedi ei chofrestru gyda rheolau elusennol. Rhif Cymdeithas Gydweithredol a Budd Cymunedol: 30776R. Rhif Landlord Cymdeithasol Cofrestredig L152.

## CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF

### Adroddiad Strategol
### ar gyfer y flwyddyn 1 Ebrill 2018 i 31 Mawrth 2019

Mae Bwrdd Rheoli Cartrefi Cymunedol Gwynedd Cyf yn cyflwyno'r adroddiad hwn a'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn 1 Ebrill 2018 i 31 Mawrth 2019.

Yn yr adroddiad a'r Datganiadau Ariannol mae 'CCG' neu 'Gymdeithas' wedi ei ddefnyddio i gyfeirio at Cartrefi Cymunedol Gwynedd Cyf.

Yn unol â gofynion y Cyngor Adrodd Ariannol, mae'r Datganiadau Ariannol wedi eu paratoi mewn cydymffurfiaeth â Safon Adrodd Ariannol (Financial Reporting Standard - FRS) 102.

**Prif Weithgareddau**

Cymdeithas Dai Trosglwyddiad Stoc ar Raddfa Fawr yw CCG wedi ei ffurfio yn Ebrill 2010 yn dilyn trosglwyddo tua 6,300 o gartrefi o Gyngor Gwynedd. Mae CCG yn Gymdeithas Gydweithredol a Budd Cymunedol wedi ei chofrestru gyda rheolau elusennol. Fel Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) caiff CCG ei reoleiddio gan Lywodraeth Cymru.

Prif bwrpas CCG yw darparu tai rhent fforddiadwy i'r rhai sydd angen tai.

Ar y 31 Mawrth 2019 roedd CCG yn rheoli 6,303 eiddo gyda'r rhan fwyaf o'r rhain wedi eu lleoli yn ardal Arfon, Gwynedd gan gynnwys dinas Bangor a thref Caernarfon. Mae nifer sylweddol hefyd wedi'u lleoli yn nhrefi fel Pwllheli, Blaenau Ffestiniog, Dolgellau, Bala a Thywyn. Mae eiddo arall wedi eu lledaenu ar draws gweddill Gwynedd mewn pentrefi a lleoliadau gwledig. Mae CCG hefyd wedi dechrau datblygu tai tu allan i Wynedd a bellach mae'n rheoli eiddo yn Sir Ddinbych a Wrecsam. Bydd ei gartrefi cyntaf yn Sir Conwy yn cael eu gosod yn ystod 2019/20.

Mae 314 o'r cartrefi yn dai gwarchod ar gyfer tenantiaid hŷn. Caiff wardeiniaid eu cyflogi i helpu sicrhau y gall tenantiaid o'r fath fwynhau byw yn annibynnol cymaint ag y gallent.

Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) oedd un o'r addewidion craidd a wnaed i denantiaid wrth drosglwyddo; llwyddwyd i'w gyflawni yn 2015. Canolbwyntiwyd ar ôl hynny ar ddatblygu a thyfu'r sefydliad, gan gynnwys gwneud pob ymdrech i wella gwasanaethau ac ansawdd cartrefi gan gwrdd â disgwyliadau cwsmeriaid a darparu tai fforddiadwy ychwanegol.

Mae CCG wedi cael achrediad OHSAS 18001 ar gyfer Iechyd a Diogelwch, ac achrediadau ISO 9001 a 14001 ar gyfer systemau rheoli Ansawdd a'r Amgylchedd.

## Amcanion a strategaethau

Mae **Cynllun Corfforaethol 2019 - 2022** yn rhoi arweiniad strategol i CCG ar gyfer y tair blynedd nesaf drwy'r **weledigaeth gorfforaethol** o:

*"Fel prif ddarparwr tai a gwasanaethau o safon, rydym yn dymuno gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i bobl a'u cymunedau."*

Mae'r cynllun yn nodi pedwar **gwerth corfforaethol craidd** i gefnogi y weledigaeth hon:

- **Teg:** Rydym yn ymddwyn yn ddiduedd, yn parchu urddas ac unigolyddiaeth pawb
- **Agored:** Rydym yn ddibynadwy ac yn agored yn y modd yr ydym yn gweithio a gwneud penderfyniadau
- **Uchelgeisiol:** Rydym yn sefydliad deinamig ac uchelgeisiol sy'n cefnogi arloesedd a chreadigrwydd, ac yn chwilio am gyfleoedd i wella bob agwedd o'n busnes
- **Atebol:** Rydym yn cymryd cyfrifoldeb dros ein penderfyniadau a'n gweithredoedd a chanfod atebion

Mae pedwar **egwyddor hanfodol** yn sail i'n gwaith:

- gweithio mewn Partneriaeth
- sicrhau Gwerth am Arian
- hybu'r iaith Gymraeg
- grymuso Diwylliant y Gweithle

Mae'r cynllun hefyd yn manylu ar bedwar **thema allweddol** sydd i'w datblygu dros y 3 blynedd nesaf, sef:

- Ein cartrefi a gwasanaethau
- Twf
- Ein cymunedau
- Ein busnes.

## Adolygiad Ariannol

### Dyfarniad Rheoleiddio

O dan Ran 1 Deddf Tai 1996, mae gan Weinidogion Cymru rym i reoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig o ran darpariaeth tai a materion sy'n ymwneud â llywodraethu a rheolaeth ariannol. Mae Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi Dyfarniad Rheoleiddio o dan adrannau 33A a 35 Deddf Tai 1996, gyda'r dyfarniad yn cael ei gyhoeddi yn unol â Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'r safonau perfformiad cysylltiol.

https://llyw.cymru/cymdeithasau-tai-sydd-wediu-cofrestru-yng-nghymru-fframwaith-rheoleiddiol?_ga=2.21737723.1333681251.1566552900-449682743.1562649922

Mae'r dyfarniad wedi'i lunio i roi dealltwriaeth i'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, ei denantiaid, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill o'i hyfywedd ariannol a pha mor dda y mae'n perfformio, ar adeg benodol.

Ni ddylai unrhyw barti ddibynnu ar y dyfarniad at unrhyw ddiben arall. Mae'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn gyfrifol am gyflawnrwydd a chywirdeb yr wybodaeth a ddarperir i'r Rheoleiddiwr.

Rhoddodd y Dyfarniad Rheoleiddio a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2018 statws "Safonol" (h.y. y dyfarniad uchaf sydd ar gael) ar gyfer Llywodraethu a Hyfywedd Ariannol, gan nodi:

- Llywodraethu a Gwasanaethau - "yn adnabod a rheoli risgiau newydd a'r rhai sy'n dod i'r amlwg yn briodol"
- Hyfywedd Ariannol - "yn cwrdd â gofynion hyfywedd ac mae ganddo'r capasiti ariannol i ymdrin â senarios yn briodol"

Mae'r Dyfarniad Rheoleiddio ar gael yn llawn yn yr adran Rheoleddio yn

https://www.ccgwynedd.org/Perfformiad

## Perfformiad Ariannol

Roedd canlyniadau ariannol 2018/19 yn well o lawer na thargedau'r cynllun busnes ac yn dangos gwarged o weithgareddau cyffredin o £6.8m. Mae hyn yn cynnwys yr arian Dowry o £4.1m o Lywodraeth Cymru ac sy'n cael ei ail-fuddsoddi yn eiddo CCG.

Roedd asedau sefydlog pendant CCG yn £147.5m ar ddiwedd y flwyddyn, yn bennaf cost y gwaith gwella cyfalaf. Roedd asedau presennol net yn £2.6m. Roedd balansau arian yn £4.2m a'r atebolrwydd ar y gronfa cynllun pensiwn llywodraeth leol yn £5.4m. Cyfanswm y cronfeydd oedd £60.9m ar ddiwedd y flwyddyn, yn bennaf y gwaith gwella tai, llai ariannu tymor-hir y gwaith hwnnw a llai yr atebolrwydd pensiwn.

Roedd balans y benthyciadau i'w talu yn £68.7m ar ddiwedd y flwyddyn a chawsant eu tynnu i lawr o dan drefniant o £82.0m gyda Banc Barclays. Roedd balans y benthyciadau yn cynnwys:

- Chwech benthyciad cyfradd sefydlog o **£49.0m** yn ad-daladwy ym mis Hydref 2021 (£5m), Hydref 2022 (£4m), Ebrill 2031 (£5m), Ebrill 2032 (£8m), Ebrill 2033 (£12m) ac Ebrill 2034 (£15m)
- Chwech benthyciad cyfraddau amrywiol o **£19.0m** gan Barclays - yn cael eu rowlio drosodd bob 3 mis.
- Tri benthyciad cyfradd amrywiol o **£0.7m** gan Lywodraeth Cymru - ad-daladwy cyn 2022/23.

## Asedau

Parhaodd y buddsoddiad mewn tai a llwyddwyd i gynnal SATC. Gwariwyd £148.4m yn y 8 mlynedd gyntaf gyda £9.1m pellach wedi ei fuddsoddi yn 2018/19. Yn ychwanegol, gwariwyd £11.2m ar gynlluniau tai newydd.

Trosglwyddwyd tua 500 hectar o dir ac asedau eraill i CCG pan gafodd y gymdeithas ei chreu. Gan fod y tir yma wedi ei drosglwyddo am ddim nid yw ei werth wedi ei gynnwys yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol. Mae'r strategaeth ar gyfer gwaredu tir nad oes ei angen mwyach yn parhau. Mae'r elw o waredu'r tir hyd yn hyn dros £400k, a disgwylir y bydd gwarediadau pellach yn cynhyrchu derbyniadau cyfalaf ychwanegol. Mae derbyniadau o'r fath yn cael eu defnyddio i gyllido'n rhannol tai fforddiadwy. Mae darnau eraill o dir yn cael eu cadw i'w datblygu gan CCG yn y dyfodol.

## Rhenti

Mae CCG wedi parhau i ddilyn polisi Llywodraeth Cymru ar Rent Tai Cymdeithasol a gyflwynwyd yn 2014/15. Mae'r polisi yn pennu band rhent cyfartalog ar gyfer y Gymdeithas lle mae'n rhaid i wir rent cyfartalog ddisgyn o'i fewn. Mae cynyddiadau chwyddiant yn seiliedig ar Indecs Prisiau Defnyddwyr a 1.5% ond gall y Gymdeithas gynyddu rhent o £2 yr wythnos ar gyfer rhan y stoc neu'r stoc gyfan os caiff hyn ei weld yn ofynnol er mwyn ariannu ymrwymiadau yn y cynllun busnes. 4.39% oedd gwir gynnydd rhent cyfartalog 2018/19 gyda chyfanswm y rhent a godwyd yn £29.1m.

## Hawl i Brynu / Caffael

Roedd tenantiaid wedi trosglwyddo o Gyngor Gwynedd yn cael 'Cadw'r Hawl i Brynu' eu cartrefi. Daeth yr opsiwn hwn i ben ym mis Ionawr 2019 gyda dyfodiad Gorchymyn Deddf Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018. Yn ystod 2018/19, cwblhawyd 25 gwerthiant fel hyn a gwerthwyd 4 eiddo arall ar y farchnad agored. Mae elw o'r gwerthiannau hyn wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr.

Nid oes gan denantiaid sydd wedi dod yn denantiaid newydd ers trosglwyddo'r un Hawl i Brynu â thenantiaid sydd wedi trosglwyddo. O dan feini prawf penodol, efallai y byddai ganddynt yr hawl i brynu eu cartref trwy broses 'Hawl i Gaffael', sy'n seiliedig ar grant yn hytrach na gostyngiad. Nid yw CCG wedi gwerthu unrhyw dŷ o dan yr Hawl i Gaffael. Daeth hyn i ben ym mis Ionawr 2019 hefyd.

## <u>Effeithiolrwydd a Gwerth am Arian</u>

Mae hybu effeithiolrwydd a gwerth am arian yn bwysig iawn i CCG. Mae "Sicrhau Gwerth am Arian" yn un o egwyddorion Cynllun Corfforaethol 2019/22 sy'n nodi:

"I sicrhau bod ein gwasanaethau yn diwallu anghenion cwsmeriaid mewn

modd cost effeithiol, byddwn yn adolygu'n barhaus y modd yr ydym yn gwneud pethau, yn pwyso a mesur cost yn ofalus, ansawdd a disgwyliadau'r cwsmer. Byddwn yn caffael nwyddau a gwasanaethau mewn ffordd deg a moesol gan barhau i gefnogi diwylliant sy'n ceisio gwella'r economi, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd drwy'r busnes yn ei gyfanrwydd, gydag adolygiadau rheolaidd i sicrhau ein bod yn ymgymryd â'r gwelliannau perthnasol. Byddwn hefyd yn sicrhau bod ein gweithgareddau yn darparu'r gwerth cymdeithasol uchaf posibl ac yn creu'r effaith fwyaf posibl ar ein tenantiaid a chymunedau."

Mae hyn yn tanategu "Strategaeth Gwerth am Arian" CCG sy'n diffinio beth rydym yn ei feddwl gyda Gwerth am Arian, gan nodi meysydd Datblygu a Gwella ac yn egluro ei ffordd o Feincnodi, Monitro Perfformiad, Caffael a Newidiadau Diwylliannol o ran Gwerth am Arian.

Mae GAA yn CCG yn golygu sicrhau bod pob punt a gaiff ei wario yn cyflawni'r effaith fwyaf posib o ran ansawdd a / neu faint. Heb GAA fel egwyddor gyffredin, byddwn heb os yn gwario mwy na beth sydd ei angen i gyflawni ein hamcanion. Does neb yn hoffi gwastraffu adnoddau ac yn sicr ni all ein tenantiaid fforddio ein bod ni'n gwneud hynny.

**<u>Adolygiad Gweithredol</u>**

Ers dod i fodolaeth yn 2010, mae CCG wedi sefydlu ei hun fel landlord cymdeithasol sydd wedi ymrwymo i wella'r sefydliad yn barhaus a'r gwasanaethau a ddarperir i gwsmeriaid.

Gwelwyd cynnydd sylweddol yn 2018/19 gyda chyflawni Cynllun Corfforaethol 2015/20. Roedd y Bwrdd a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn hyderus ei fod wedi ei gyflawni mewn da bryd ac felly datblygwyd cynllun corfforaethol newydd ar gyfer 2019-22. Cafodd hyn ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y Bwrdd ym mis Ebrill 2019.

Roedd prif lwyddiannau 2018/19 yn cynnwys:

**Cartrefi**


Yn ogystal â chynnal Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC), cafodd 44 o dai eu hychwanegu at stoc CCG yn 2018/19. Bu i denantiaid cartrefi wedi eu hadeiladu o'r newydd gan CCG adrodd boddhad o 100% gydag ansawdd eu cartrefi.

Mae CCG wedi eu 'rhanbarthu' gan Llywodraeth Cymru i ddatblygu tai mewn 5 o'r 6 sir yng Ngogledd Cymru. Mae'r Cynllun Corfforaethol newydd yn nodi amcan o adeiladu 550 o gartrefi newydd erbyn 2021/22 gan gynnwys 50 o dai arloesol. Mae CCG wedi cychwyn ar raglen ail-frandio i adlewyrchu datblygiad y sefydliad a dyheadau'r dyfodol.

## Boddhad Cwsmer

Caiff adborth gan gwsmeriaid ei fonitro yn agos i sicrhau bod gwasanaethau yn parhau i wella. Mae CCG wedi sefydlu amcanion uchelgeisiol i wella cyfraddau boddhad cwsmer o fewn y Cynllun Corfforaethol newydd ac yn ddiweddar mae CCG wedi derbyn statws Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cwsmer.

Bu i foddhad tenant gydag ansawdd eu cartref, eu hardal a gwasanaethau i gyd wella yn 2018/19 fel ac y gwnaeth eu barn ar allu CCG i wrando a gweithredu. Bu i denantiaid adrodd boddhad llawer iawn uwch gyda'r ffordd rydym yn ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a gwelwyd cynnydd yn y nifer o denantiaid sy'n ymddiried ynom. Caiff adborth gan ein tenantiaid yn erbyn cwestiynau gwasanaethau cwsmer y Rheoleiddiwr yn 2018/19 eu crynhoi yn y siart isod:




## Cynnal a Chadw

Bu i weithlu mewnol CCG barhau i gyflawni gwaith cynnal a chadw fel rhan o'r rhaglen gwelliannau cyfalaf. Bu i foddhad tenant gyda'r gwasanaeth trwsio fynd tu hwnt i'r targed yn ystod 2018/19. Dechreuodd CCG wneud y gwaith cynnal a chadw a gwasanaethu gwres ei hun ym mis Tachwedd 2018. Mae trawsnewid y gwasanaeth yma wedi creu arbedion pellach i'r sefydliad ac mae lefelau boddhad cwsmer gyda'r gwasanaeth yn parhau i fod yn uchel.

Trwy ei ymrwymiad i gynnal achrediad ISO Iechyd a Diogelwch mae CCG yn parhau i flaenoriaethu iechyd a diogelwch tenantiaid, staff a'r cyhoedd.

## Strategaeth Gymunedol

Mae Strategaeth Gymunedol 2018-2030 yn amlinellu sut y bydd CCG yn parhau i fuddsoddi yn ein cymunedau. Y pum prif thema sy'n cael

blaenoriaeth yw Cyflogaeth a Sgiliau, Iechyd a Lles, Trosedd a Diogelwch, Amgylchedd, Iaith a Diwylliant. Yn y strategaeth, mae CCG yn parhau i wella'r cyfraniad i fuddsoddiad cymunedol ac i gyflawni gwerth cymdeithasol i gymunedau.

### Credyd Cynhwysol

Sefydlwyd prosiect corfforaethol i liniaru effaith posib Credyd Cynhwysol ar denantiaid CCG ac ar incwm y busnes. Bu i'r prosiect yma, ynghyd â gweithio mewn partneriaeth (gan gynnwys sefydlu grŵp Tasg a Gorffen Lles Gwynedd) a pharodrwydd CCG, olygu bod tenantiaid yn cael help i reoli newid pan ddaeth Credyd Cynhwysol i Wynedd ym mis Rhagfyr 2018.

### Opsiynau Tai

Bu i adolygiad o wasanaethau Opsiynau Tai yng Ngwynedd amlygu'r angen am bolisi a gwelliannau gwasanaeth gyda pholisi adolygedig Gosod Tai Cyffredin Gwynedd yn cael ei gyflwyno i gabinet Cyngor Gwynedd ym mis Mehefin 2019. Mae trefniadau wedi eu rhoi ar waith gydag Awdurdodau Lleol yng Ngogledd Cymru i reoli y broses gosod ar gyfer eiddo newydd CCG yn Sir Ddinbych, Conwy, Sir y Fflint a Wrecsam.

### Cofrestr Tai Fforddiadwy

Mae CCG yn cydweithio ag Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Tai yng Ngogledd Cymru fel rhan o'r trefniadau ar gyfer gosod tai fforddiadwy (Tai Teg). Mae Polisi Rhent Canolradd wedi ei gymeradwyo hefyd ac mae trefniadau ar gyfer 'Rhentu i Brynu' a 'Perchnogaeth ar y Cyd' hefyd wedi eu rhoi ar waith.

### Strategaeth a Safon Tai Gwag

Cyflwynwyd Strategaeth a Safon Tai Gwag newydd i wella safon cartrefi cyn iddynt gael eu gosod. Yn dilyn peilot cychwynnol, rhoddwyd y safon ar waith ac erbyn chwarter olaf 2018/19, roedd 94% o denantiaid newydd yn adrodd eu bod yn fodlon gyda chyflwr cyffredinol yr eiddo. Mae hyn yn cymharu â 67% ar gychwyn 2017/18.

Roedd perfformiad diwedd y flwyddyn yn dangos gwelliant yn amseroedd troi tai i'w gosod o gymharu â 2017/18 gydag eiddo gwag yn cael eu hail osod 21.6 diwrnod yn gynt na blynyddoedd blaenorol. Y ffocws ar gyfer 2019/20 yw cynnal yr ansawdd gan barhau i leihau amser troi tai i'w gosod.

### Taliadau Gwasanaeth

Yn unol â gofyniad Llywodraeth Cymru i wahanu taliadau gwasanaeth a rhenti, cafodd adolygiad o Daliadau Gwasanaeth ei gynnal lle bu i ni ymgynghori gyda phob tenant. Cafodd y Polisi Tâl Gwasanaeth ei gytuno a'i weithredu gyda thâl am wasanaeth ar gyfer tenantiaid newydd yn cael ei gyflwyno yn ystod 2018/19.

## Caffael cynaliadwy

Gwnaed cynnydd sylweddol yn 2018/19 gyda sefydlu arferion gorau moesol a chynaliadwy o fewn gweithgareddau caffael. CCG oedd y Gymdeithas Dai gyntaf yng Nghymru i ymrwymo i Gôd Ymarfer Llywodraeth Cymru - Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi. Mae'r ymrwymiad yma i fynd i'r afael â materion fel caethwasiaeth fodern ac arferion busnes anfoesol yn y cadwyn gyflenwi yn cael ei dystiolaethu yn Natganiad Caethwasiaeth Fodern cyntaf CCG, ynghyd â datblygu a rhoi Polisi Caffael Cynaliadwy a Chod Ymddygiad Cyflenwyr ar waith.

## Gwna Wahaniaeth

I sicrhau bod CCG yn barod am dwf sefydliadol a heriau a ddaw i'r amlwg, mae "Gwna Wahaniaeth" wedi ei sefydlu. Mae'r Rhaglen Datblygu Cyfundrefnol yma yn dylanwadu, datblygu ac yn atgyfnerthu diwylliant mewnol mewn ffordd gadarnhaol. Yn ystod 2018/19, bu i 12 aelod o staff fod y rhai cyntaf i fynychu Academi Arweinwyr y Dyfodol a chael profiad gwerthfawr a dysgu drwy wrando ar nifer o siaradwyr dylanwadol. Cynhaliwyd gweithgareddau i hybu iechyd a lles staff gan gynnwys gwiriadau iechyd gwirfoddol gan arbenigwyr allanol i adolygu ffactorau fel pwysau gwaed, BMI a cholesterol.

## Cydnabyddiaeth

Mae llwyddiannau blaenorol ar sicrhau gwobrau yn y diwydiant ar gyfer arfer da a llwyddiannau wedi parhau, gyda CCG wedi eu rhoi ar restr fer ar gyfer 10 gwobr gan gynnwys cyrraedd y rownd derfynol yng Ngwobrau UK Housing Awards ar gyfer ffordd wych o ymdrin â gwaith cynnal a chadw, a Gwobrau AD Cymru ar gyfer y fenter AD gorau. Roedd aelod o staff yn rownd derfynol gwobrau Arweinwyr Ifanc 24 Housing.

Lansiwyd y gwobrau staff cyntaf yn 2018/19. Roedd pob aelod o staff yn gallu enwebu unigolion a thimau oedd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i gyflawni gwerthoedd craidd a gwella'r sefydliad.

## Trawsnewid Busnes

Mae'r Prosiect Trawsnewid Busnes wedi parhau i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau gwell a mwy modern, gan drawsnewid diwylliant ac arferion gweithio, a chynyddu hyfywedd ariannol. Yn ddiweddar rydym wedi bod yn canolbwyntio ar gyflwyno system rheoli tai newydd sydd wedi ei raglennu i fynd yn fyw yn 2019/20.

Fel rhan o'r broses o wella ein swyddfeydd, agorwyd swyddfeydd newydd a modern yng Nghaernarfon a Dolgellau.

### Gwaith elusennol

Mae CCG yn cefnogi elusen yn flynyddol drwy amryw o weithgareddau codi arian. Elusen 2018/19 oedd Ambiwlans Awyr Cymru a chodwyd £1,500 gan staff drwy weithgareddau amrywiol gan gynnwys cynllun pêl fonws, her ymarfer corff yn ystod yr haf a chyfraniadau gan gontractwyr a oedd yn gweithio ar gynlluniau CCG.

### Ail-gyllido

Mae ymarfer ail gyllido ar y gweill, i'w gwblhau yn nes ymlaen yn 2019. Bydd hyn yn sicrhau bod gan CCG y cyllid yn ei le i gefnogi ei gynlluniau twf a datblygu uchelgeisiol dros y blynyddoedd nesaf.

### Her Cyllideb

Mae'r broses "Her Cyllideb" yn golygu cynnal adolygiad dwys o wasanaethau a chyllidebau. Cafodd arbedion effeithlonrwydd o £1.2m eu canfod i'w ail fuddsoddi i ddarparu gwasanaeth yn ystod 2019/20.

Mae'r llwyddiannau hyn yn rhoi sylfaen gadarn ar gyfer mynd a'r busnes ymhellach ac i ddatblygu fel caiff ei fanylu yn y Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2019/2022.

## Asesiad Rheoleiddio Cymdeithas Dai (HARA)

Mae Rhan 2 Mesur Tai (Cymru) 2011 (y Mesur) sy'n diwygio Rhan 1 Deddf Tai 1996 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru reoleiddio LCC yng Nghymru. Mae'r mesur hwn yn rhoi mwy o bwerau rheoleiddiol a gallu i ymyrryd i Weinidogion Cymru.

Ar ddiwedd 2018, bu i Dîm Rheoleiddio Tai Llywodraeth Cymru gynnal Asesiad Rheoleiddiol ar ran Gweinidogion Cymru. Bwriad yr Asesiad Rheoleiddio yw darparu dealltwriaeth i CCG, tenantiaid, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill o ba mor dda rydym yn perfformio, ar amser penodol yn erbyn canlyniadau cyflawni sy'n ymwneud â:

- Gwasanaethau landlord
- Llywodraethu
- Rheolaeth Gyllidol

Cynhaliwyd yr Asesiad Rheoleiddiol yn unol â dull yn seiliedig ar risg tuag at reoleiddio sydd wedi ei nodi yn y 'Fframwaith Rheoleiddio' a chanllawiau cysylltiol *'Gwella gweithrediad Y Fframwaith Rheoleiddio: dull rheoleiddio seiliedig ar risg: Risgiau sector i gymdeithasau tai yng Nghymru.'*

Mae'r Rheoleiddiwr yn defnyddio gwybodaeth sydd wedi ei dderbyn drwy gyswllt rheoleiddiol parhaus gyda CCG ynghyd â gwybodaeth sydd wedi ei ddarparu er mwyn creu barn reoleiddiol.

Cyhoeddwyd yr Asesiad Rheoleiddio ym mis Rhagfyr 2018 fel rhan o'r Dyfarniad Reoleiddio sydd wedi ei fanylu ar dudalen 4 uchod. Derbyniodd y

Bwrdd y casgliadau hyn fel asesiad teg a rhesymol. Mae'r berthynas â'r Rheoleiddiwr yn parhau i fod yn iach gyda chyswllt rheolaidd yn cael ei gynnal.

## Y Cod Llywodraethu

Bu i'r Bwrdd barhau i ddilyn Siarter Llywodraethu Da Cartrefi Cymunedol Cymru (CCC) sydd wedi ei ddatblygu i ddangos ymrwymiad gweledol i lywodraethu da.

Cyhoeddwyd Cod Llywodraethiant adolygedig yn haf 2018 a chynhaliwyd 'dadansoddiad bwlch cydymffurfio'. Y canlyniadau oedd bod CCG mewn sefyllfa i ddangos cydymffurfiaeth gyda mwyafrif o'r Cod a datblygwyd cynllun gweithredu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn.

Roedd y Cynllun Gweithredu ar Gydymffurfiaeth yn cynnwys darpariaeth ar gyfer adolygiad mwy rheolaidd o Fframwaith Rheoli Risg CCG, ac argymhelliad bod CCG yn egluro gwerthusiad y Bwrdd yn ei Adroddiad Blynyddol. Mae'r ddau yn cael eu gweithredu.

## Strwythur Bwrdd a Phwyllgorau

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Arbennig ym mis Ionawr 2019 i ddiweddaru Rheolau CCG mewn ymateb i Ddeddf Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol (Cymru) 2018. Mae'r Rheolau erbyn hyn yn caniatáu i CCG gael deuddeg aelod Bwrdd sy'n cynnwys pedwar tenant, dau wedi eu henwebu gan Gyngor Gwynedd a chwech aelod annibynnol a hyd at dri aelod cyf-etholedig. Maent i gyd yn Gyfarwyddwyr Anweithredol i CCG, gan ddod â phrofiadau proffesiynol, masnachol a lleol. Caiff aelodau'r Bwrdd a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol eu manylu ar dudalen 1.

Mae CCG yn cynnal gwerthusiadau blynyddol o'r Bwrdd. Bu i werthusiad 2018/19 nodi bod gan y Bwrdd ystod eang o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad o wahanol gefndiroedd / safbwyntiau. Nodwyd bylchau mewn sgiliau a defnyddiwyd hyn wrth ymdrechu i recriwtio yn ystod y flwyddyn.

Adolygwyd strwythur llywodraethu CCG yn 2018/19 ac mae'n cynnwys y Pwyllgorau / Panel Sefydlog isod i adolygu meysydd busnes penodol:

- Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd
- Pwyllgor Cwsmeriaid ac Asedau
- Panel Penodi, Cydnabyddiaeth a Disgyblu

Mae'r strwythur hefyd wedi ei gynllunio i gefnogi gofynion y sefydliad yn y dyfodol gan gynnwys cyflawni'r Cynllun Corfforaethol.

## Datganiad o gyfrifoldebau'r Bwrdd

Mae Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Gymunedol yn gofyn bod y Bwrdd yn paratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Rhaid i'r cyfrifon hyn

roi adlewyrchiad gwir a theg o sefyllfa’r Gymdeithas a’r hyn sydd ganddo yn warged am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r cyfrifon, mae’n rhaid i’r Bwrdd:

- Dewis polisïau cyfrifo addas ac yna eu rhoi ar waith yn gyson;
- Gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy’n rhesymol a chall;
- Nodi a yw safonau cyfrifo cymwys wedi eu dilyn;
- Paratoi cyfrifon ar sail busnes gweithredol heblaw ei fod yn amhriodol.

Mae’r Bwrdd yn gyfrifol am gadw cofnod cywir o gyfrifon sy’n datgelu, gyda chywirdeb rhesymol, ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y Gymdeithas a’u galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â’r Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Gymunedol a Deddfau Tai. I bennu sut y mae cyfansymiau’n cael eu cyflwyno o fewn eitemau yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr a Datganiad Sefyllfa Ariannol, mae’r Bwrdd wedi ystyried sylwedd y trafodyn neu drefniant sydd wedi ei adrodd yn unol ag egwyddorion neu ymarferion cyfrifo derbyniol cyffredinol. Maent hefyd yn gyfrifol am warchod asedau’r Gymdeithas ac felly am gymryd camau priodol i atal ac adnabod twyll neu anghysondebau eraill drwy sefydlu a chynnal system reoli foddhaol dros gofnodion cyfrifo’r Gymdeithas, daliadau arian parod a’i holl dderbyniadau a thaliadau.

Er bod y Bwrdd yn gyfrifol am fframwaith strategaeth a pholisi y Gymdeithas, caiff rheolaeth weithredol a gweithredu ei ddirprwyo i’r tîm gweithredol a staff yn ehangach.

### Aelodaeth Cyfranddalwyr

Roedd gan CCG 47 o gyfranddalwyr ar ddiwedd 2018/19 gyda phob aelod yn dal £1 o gyfran yn CCG. Gall cyfranddalwyr ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir o fewn y Gymdeithas drwy eu hawl i bleidleisio yn y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol. Mae gan bob tenant yr hawl i wneud cais i fod yn gyfranddaliwr.

Mae Cyngor Gwynedd yn dal un cyfran heb yr hawl i bleidleisio ar ran yr Awdurdod Lleol / ei enwebai ar y Bwrdd, ac mae gweddill aelodau'r Bwrdd yn gyfranddalwyr. Nid yw unrhyw un o'r uwch swyddogion yn dal unrhyw ddiddordeb yng nghyfalaf cyfranddaliadau'r Gymdeithas, gyda Rheolau’r Gymdeithas yn atal gweithwyr rhag dal cyfran.

### Rheolaeth Fewnol

Cyfrifoldeb cyffredinol y Bwrdd yw sefydlu a chynnal yr holl system reoli fewnol ac adolygu pa mor effeithiol ydyw.

Mae’r Bwrdd yn cydnabod na all unrhyw system reoli fewnol roi sicrwydd llwyr yn erbyn cam reoli materol neu golled neu gael gwared â bob risg o anallu i gyrraedd amcanion busnes. Mae’r system reolaeth fewnol wedi ei chynllunio i reoli risgiau allweddol ac i roi sicrwydd rhesymol bod amcanion busnes sydd wedi eu cynllunio a chanlyniadau yn cael eu cyrraedd. Mae hefyd yn bodoli er

mwyn rhoi sicrwydd rhesymol ynglŷn â pharatoi a dibynadwyedd gwybodaeth ariannol a gweithredol, a gwarchod asedau a diddordebau'r Gymdeithas.

Wrth gwrdd â'i gyfrifoldebau, mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu dull yn seiliedig ar risg gyda rheolaethau mewnol sy'n rhan annatod o'r broses reoli a llywodraethu arferol. Mae'r dull hwn yn cynnwys gwerthusiad rheolaidd o natur a maint risgiau y mae'r gymdeithas yn agored iddynt ac maent yn cyd fynd â chylchlythyr tai LlC RSL02/10: 'Rheoliadau Mewnol ac Adrodd.'

Mae'r broses sydd wedi ei fabwysiadu gan y Bwrdd wrth adolygu effeithiolrwydd systemau rheoli mewnol ynghyd â rhai o'r prif elfennau'r fframwaith reoli yn cynnwys:

<u>Adnabod a gwerthuso risgiau allweddol:</u>

Mae'r Fframwaith Rheoli Risg diwygiedig a gymeradwywyd ym mis Rhagfyr 2018 yn amlinellu'r prosesau ynghlwm â Rheoli Risg gan gynnwys adnabod, dadansoddi a sgorio risgiau ynghyd â sut mae risgiau yn cael eu monitro yn y sefydliad. Mae'r fframwaith yn cyfeirio at ddwy lefel o risg sef risgiau strategol a gweithredol.

I sicrhau sgorio risg mewn ffordd gyson, adolygwyd y matrics sgorio risg ym mis Rhagfyr 2018 i adlewyrchu'r cynnydd mewn sefydlogrwydd ariannol ac aeddfedrwydd gweithredu. Mae hyn yn darparu arf cynhwysfawr ar gyfer asesu tebygrwydd bod risg yn digwydd ynghyd ag effaith risg o'r fath, a chaiff ei rannu i dri maes i sicrhau eglurder sef yr effaith ar gost, amser ac ansawdd.

Mae'r broses yn galluogi'r sefydliad i adnabod risgiau allweddol ac unrhyw ansicrwydd a'r risgiau mwyaf a gafodd eu hadnabod yn ystod y flwyddyn oedd:

- Effaith Diwygio Lles ar denantiaid a thenantiaethau CCG
- Newidiadau i bolisi rhent Llywodraeth Cymru
- Effaith gadael Ewrop heb ddêl a gallu CCG i weithredu a'i sefydlogrwydd yn gyffredinol

Mae adnabod risg o'r fath o gymorth i adnabod ffordd briodol o fonitro risg er mwyn ei reoli a'i leihau, ac mae yna adrodd rheolaidd ar risgiau i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol.

Mae'r swyddogaeth archwilio mewnol, sy'n cael ei ddarparu gan gwmni o gyfrifwyr annibynnol, yn dilyn rhaglen archwilio yn seiliedig ar risg ac maent yn adrodd yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd.

<u>Gweithdrefnau rheoli cyffredinol:</u>

Mae'r Bwrdd yn cadw'r cyfrifoldeb am ystod ddiffiniedig o faterion yn ymwneud â materion strategol, gweithredol a chyllidol a materion cydymffurfio. Mae polisïau a gweithdrefnau yn ymdrin â materion megis awdurdod dirprwyedig,

rhannu dyletswyddau, cyfrifo, rheolaeth trysorlys, iechyd a diogelwch, diogelu data ac ased, ac adnabod ac atal twyll.

<u>Systemau gwybodaeth ac adrodd am gyllid:</u>

Mae gweithdrefnau adrodd am gyllid yn cynnwys creu cyllidebau manwl ar gyfer y flwyddyn i ddod, cynhyrchu cyfrifon rheoli manwl yn fisol a rhagolygon ar gyfer y flwyddyn ariannol ac ar gyfer blynyddoedd dilynol. Maent yn cael eu hadolygu yn fanwl gan y cyfarwyddwyr gweithredol ac yn cael eu hystyried a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. Caiff adroddiad ariannol rheolaidd ei gyflwyno i'n Cyllidwyr fel rhan o'r cytundeb fenthyg. Mae pwyllgorau yn adolygu dangosyddion perfformiad allweddol yn rheolaidd i asesu cynnydd tuag at gyrraedd yr amcanion busnes allweddol, targedau a chanlyniadau.

<u>Monitro a gweithred cywiro:</u>

Mae’r broses o adrodd yn rheolaidd ar faterion rheoli yn rhoi sicrwydd i uwch reolwyr a’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. Mae hyn yn cynnwys gweithdrefn gadarn i sicrhau bod gweithred gywiro yn cael ei chymryd sy’n ymwneud ag unrhyw faterion rheoli sylweddol, yn enwedig y rhai a all effeithio yn faterol ar ddatganiadau cyllidol a darparu gwasanaethau.

Mae’r fframweithiau reolaeth fewnol a’r broses rheoli risg yn ddarostyngedig i adolygiad rheolaidd gan Archwilwyr Mewnol sy’n adrodd i’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. Mae’r pwyllgor yma yn ystyried risg a rheolaeth fewnol ym mhob cyfarfod.

Mae’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd hefyd yn cynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd systemau rheoli mewnol ac yn ystyried unrhyw newidiadau angenrheidiol i gynnal effeithiolrwydd rheolaeth risg a’r broses reoli.

Mae’r Bwrdd yn cadarnhau bod proses parhaus ar gyfer canfod a rheoli risgiau arwyddocaol, bod y broses hon yn cael ei hadolygu yn rheolaidd gan y Bwrdd, a’i fod wedi bod ar waith drwy gydol 2018/19 a hyd at ddyddiad yr adroddiad blynyddol a’r cyfrifon.

**Datganiad Cydymffurfio**

Mae'r Bwrdd yn cadarnhau bod yr Adroddiad Strategol hwn wedi ei baratoi yn unol ag egwyddorion sydd wedi eu nodi ym Mharagraff 4.7 y 'Housing SORP 2014'.

**Yn ôl trefn y Bwrdd:**

R.M. Jones.

Mark Jones – Cadeirydd

Dyddiad: 11 Medi 2019

## ADRODDIAD ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I AELODAU CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF

**Barn**

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Cartrefi Cymunedol Gwynedd Cyf (“y Gymdeithas”) ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2019 sy’n cynnwys Datganiad Incwm Cynhwysfawr, Datganiad o Newidiadau mewn Cronfeydd, Datganiad Sefyllfa Ariannol a Datganiad Llif Arian ynghyd â nodiadau yn cyd-fynd â’r datganiadau ariannol gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifo arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol sydd wedi ei ddefnyddio wrth eu paratoi yw cyfraith cymwys a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (‘United Kingdom Generally Accepted Accounting Practice’), gan gynnwys FRS 102 “Safon Adroddiad Ariannol yn gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon” (Safonau Cyfrifo’r Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi barn gwir a theg o sefyllfa’r Gymdeithas ar 31 Mawrth 2019 ac o'i warged am y flwyddyn a ddaeth i ben:
- wedi’u paratoi’n gywir yn unol â Safonau Cyfrifo’r Deyrnas Unedig; ac
- wedi eu paratoi yn unol â'r Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Gymunedol 2014, y Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 a Gofynion Cyfrifo ar gyfer Penderfyniad Cyffredinol (Cymru) ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig 2015.

**Sail ar gyfer barn**

Rydym wedi cynnal ein harchwiliad yn unol â’r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (ISAs (UK)) a chyfraith gymwys. Caiff ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran cyfrifoldebau’r Archwilydd am yr archwiliad sydd yn y datganiadau ariannol. Rydym yn annibynnol o’r Gymdeithas yn unol â gofynion moesegol sy’n berthnasol i’n harchwiliad o ran y datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol ar gyfer Archwilwyr, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rydym o’r farn bod y dystiolaeth archwilio roddwyd i ni yn ddigonol a phriodol i roi sail i’n barn.

**Casgliadau mewn perthynas â busnes gweithredol**

Nid oes gennym unrhyw beth i’w adrodd am y materion canlynol lle mae’r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn gofyn i ni adrodd i chi os:

- yw’r modd y mae’r Bwrdd yn defnyddio dull cyfrifo ar sail busnes gweithredol wrth baratoi datganiadau ariannol yn amhriodol; neu
  .

- nad yw'r Bwrdd wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd materol a fyddai o bosib yn codi amheuaeth sylweddol ynghylch gallu'r Gymdeithas i barhau i ddefnyddio'r dull cyfrifo ar sail busnes gweithredol am gyfnod o 12 mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodwyd rhyddhau'r datganiadau ariannol.

**Gwybodaeth Arall**

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol, ar wahân i'r datganiadau ariannol ynghyd â'n hadroddiad archwilio wedi hynny. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am yr wybodaeth arall. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac eithrio i'r hyn a nodir fel arall yn ein hadroddiad, nid ydym yn datgan unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall.

Mewn perthynas â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol ein cyfrifoldeb yw darllen yr wybodaeth arall, ac wrth wneud hynny, ystyried a oes anghysondeb materol rhwng yr wybodaeth arall a'r datganiadau ariannol neu gyda'r wybodaeth i ni ei gael yn yr archwiliadau neu sy'n ymddangos fel arall wedi'i gam ddatgan yn faterol. Os byddwn yn dod yn ymwybodol o unrhyw anghysondebau materol o'r fath neu gamddatganiadau materol, rhaid i ni bennu a oes camddatganiad materol yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad materol o'r wybodaeth arall. Os byddwn yn dod i'r casgliad ar sail y gwaith i ni ei berfformio bod camddatganiad materol o'r wybodaeth arall yma, gofynnir i ni adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd o ran hyn.

**Materion lle mae angen i ni adrodd drwy eithriad**

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd am y materion canlynol lle mae'r Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Gymunedol 2014 yn gofyn i ni adrodd i chi os, yn ein barn ni:

- nad oes yna system reoli dros drafodion wedi ei gynnal; neu
- nad yw'r gymdeithas wedi cadw cofnodion cyfrifo cywir; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cyd fynd â'r llyfrau cyfrifon; neu
- nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac eglurhad yr ydym ei angen ar gyfer ein harchwiliad.

**Barn ar faterion eraill a ragnodir yng Nghylchlythyr Cymdeithas Tai RSL 02/10: Rheoliadau mewnol ac adrodd**

O ran datganiad y Bwrdd ar rheolaethau ariannol mewnol ar dudalennau 12 i 14, yn ein barn ni:

- mae'r Bwrdd wedi darparu'r datgeliad sy'n ofynnol gan Gylchlythyr Cymdeithas Dai LCC 02/10: Rheoliadau mewnol ac adrodd; a
- Nid yw datganiad y Bwrdd yn anghyson gyda'r wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni o'n gwaith archwilio ar y datganiadau ariannol.

**Cyfrifoldebau'r Bwrdd**

Fel sy'n cael ei egluro yn llawn yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Bwrdd ar dudalen 11, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol a chael eu bodloni eu bod yn rhoi barn gwir a theg, ac am reolaeth fewnol y mae'r Bwrdd yn pennu sy'n angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau materol, naill ai drwy dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi datganiadau ariannol, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am asesu gallu'r gymdeithas i barhau fel busnes gweithredol, datgelu, fel sy'n gymwys, faterion yn ymwneud â busnes gweithredol gan ddefnyddio dull cyfrifo ar sail busnes gweithredol oni bai bod y Bwrdd yn dymuno diddymu'r gymdeithas neu ddod â gweithrediadau i ben, neu heb ddewis realistig arall ond i wneud hynny.

**Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol**

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol ar y cyfan yn rhydd o unrhyw gam ddatganiadau materol, naill ai drwy dwyll neu gamgymeriad, ac i gyhoeddi adroddiad yr archwiliwr sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad wedi'i gynnal yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) bob amser yn canfod camddatganiad materol pan mae'n bodoli. Gall camddatganiadau godi trwy dwyll neu gamgymeriad ac maent yn cael eu hystyried fel materol, os ydynt yn unigol neu yn eu crynswth, byddai gofyn rhesymol iddynt ddylanwadu penderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan Y Cyngor Adrodd Ariannol yn http://www.frc.org.uk/auditors/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o adroddiad ein harchwilwyr.

**Defnyddio ein Hadroddiad**

Caiff yr adroddiad hwn ei wneud i aelodau'r gymdeithas yn unig, fel corff, yn unol ag Adran 87 o'r Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Budd Cymunedol 2014. Mae ein gwaith archwilio wedi ei wneud fel y gallwn nodi i aelodau'r Gymdeithas y materion hynny y mae gofyn i ni eu nodi iddynt mewn adroddiad archwilwyr ac nid ar gyfer unrhyw ddiben arall. I'r ehangder fwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn tybio cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw am y Gymdeithas ac aelodau'r Gymdeithas fel corff am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn neu am y farn yr ydym wedi ei greu.

Beever and Struthers

**Beever and Struthers**
**Statutory Auditors**
**St George's House**
**215 – 219 Chester Road**
**Manceinion**
**M15 4JE**
**Dyddiad: 25 Medi 2019**

## Datganiad Incwm Cynhwysfawr

Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2019

| | Nodiadau | 2019 £'000 | 2018 £'000 |
|---|---|---|---|
| Trosiant | 2 | 34,654 | 32,619 |
| Gwariant Gweithredu | 2 | (26,272) | (23,480) |
| Enillion ar Waredu Eiddo, Offer a Chyfarpar | | 2,249 | 1,182 |
| **Gwarged Gweithredu** | | **10,631** | **10,321** |
| Gostyngiad ym Mhrisiant Eiddo Buddsoddi | | 0 | (59) |
| Llog Derbyniadwy | 4 | 10 | 39 |
| Costau Llog a Chyllido | 4 | (3,798) | (3,719) |
| **Gwarged cyn Treth** | | **6,843** | **6,582** |
| Trethiant | 21 | 0 | 0 |
| **Gwarged ar gyfer y Flwyddyn** | | **6,843** | **6,582** |
| (Colled) / Enillon Actiwari ar Gynlluniau Pensiwn | 17 | (1,266) | 651 |
| **Cyfanswm Incwm Cynhwysfawr ar gyfer y Flwyddyn** | | **5,577** | **7,233** |

Mae canlyniadau'r gymdeithas yn ymwneud yn gyfan gwbl â gweithgareddau sy'n parhau.

Cymeradwywyd ac awdurdodwyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 19 i 22 i'w cyhoeddi i'r Bwrdd ar 11 Medi 2019 ac fe'i llofnodwyd ar ei ran gan:

| | | |
|---|---|---|
| Mark Jones – Cadeirydd | Abigail Tweed – Is-gadeirydd | Aled Davies – Ysgrifennydd |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 23 i 45 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o Newidiadau mewn Cronfeydd

Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2019

| | Cyfanswm Cronfeydd £'000 |
|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2018** | **55,347** |
| Gweddill o'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr | 5,577 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | **60,924** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 23 i 45 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

## CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYF
## DATGANIADAU ARIANNOL BLWYDDYN YN GORFFEN 31 MAWRTH 2019

### Datganiad Sefyllfa Ariannol

Fel ar 31 Mawrth 2019

| | Nodyn | 31 Mawrth 2019 | | 31 Mawrth 2018 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Asedau Sefydlog** | | | | | |
| Asedau Sefydlog Pendant | 6, 7 & 8 | | 147,527 | | 133,776 |
| **Asedau Presennol** | | | | | |
| Stoc | 9 | 95 | | 77 | |
| Dyledwyr Masnach ac Eraill | 10 | 11,184 | | 12,729 | |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | 11 | 4,220 | | 2,937 | |
| **Llai:** Credydwyr sy'n daladwy o fewn Un flwyddyn | 12 | (12,851) | | (15,633) | |
| **Asedau Presennol Net** | | | **2,648** | | **110** |
| **Cyfanswm Asedau llai Atebolrwydd Presennol** | | | **150,175** | | **133,886** |
| Dyledwyr : Taladwy ar ôl un flwyddyn | 10 | | 53,584 | | 58,386 |
| Credydwyr : Taladwy ar ôl un flwyddyn | 13 | | (137,424) | | (133,904) |
| Darpariaeth ar gyfer Atebolrwydd | | | | | |
| - Darpariaeth Pensiwn | 17 | (5,411) | | (3,021) | |
| - Darpariaethau Eraill | 14 | 0 | (5,411) | 0 | (3,021) |
| **CYFANSWM ASEDAU NET** | | | **60,924** | | **55,347** |
| **Cronfeydd:** | | | | | |
| Cyfalaf Cyfran ddim yn ecwiti | 15 | - | | - | |
| Cronfa Incwm a Gwariant | | 60,924 | | 55,347 | |
| **CYFANSWM CRONFEYDD** | | | **60,924** | | **55,347** |

Cymeradwywyd ac awdurdodwyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 19 i 22 i'w cyhoeddi i'r Bwrdd ar 11 Medi 2019 ac fe'i llofnodwyd ar ei ran gan:

Mark Jones – Cadeirydd

Abigail Tweed – Is-gadeirydd

Aled Davies – Ysgrifennydd

Mae'r nodiadau ar dudalennau 23 i 45 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad Llif Arian Parod

Ar gyfer blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2019

| | 2019 | | 2018 | |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Arian Parod Net wedi ei greu o Weithgareddau Gweithredu (gweler Nodyn i)** | | **14,212** | | **15,615** |
| **Llif Arian Parod o Weithgareddau Buddsoddi** | | | | |
| Prynu Asedau Sefydlog Pendant | (20,581) | | (14,389) | |
| Enillion o Werthu Asedau Sefydlog Pendant | 2,880 | | 1,340 | |
| Grantiau wedi eu derbyn | 8,765 | | 2,380 | |
| Llog wedi ei dderbyn | 10 | | 3 | |
| | | (8,926) | | (10,666) |
| **Llif Arian Parod o Weithgareddau Cyllido** | | | | |
| Llog wedi ei dalu | (3,703) | | (3,718) | |
| Benthyciadau Newydd wedi eu sicrhau | 3,300 | | 3,383 | |
| Ad-dalu Benthyciadau | (3,600) | | (5,000) | |
| | | (4,003) | | (5,355) |
| **Newid Net mewn Arian Parod a chyfwerth ag arian parod** | | **1,283** | | **(386)** |
| Arian Parod a Chyfwerth ar Gychwyn y Flwyddyn | | 2,937 | | 3,323 |
| Arian Parod a Chyfwerth ar Ddiwedd y Flwyddyn | | 4,220 | | 2,937 |

## Llif Arian Rhydd CCG

Ar gyfer blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2019

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| **Arian Parod Net wedi ei greu o Weithgareddau Gweithredu (gweler Nodyn i)** | **14,212** | **15,615** |
| Llog wedi ei dalu | (3,703) | (3,718) |
| Llog wedi ei dderbyn | 10 | 3 |
| **Addasiadau er mwyn ail fuddsoddi mewn eiddo presennol** | | |
| Newid cydrannau | (10,007) | (9,295) |
| Prynu asedau sefydlog eraill yn gyfnewid | (260) | (99) |
| Grant cyfnewid cydrannau wedi ei dderbyn | 0 | 0 |
| **Arian rhydd wedi ei greu / (ei ddefnyddio) cyn ad-daliadau benthyciadau** | 252 | 2,506 |
| Benthyciadau wedi ei had-dalu (ac eithrio credydau cylchol a gor-ddrafftiau) | 0 | 0 |
| **Arian rhydd wedi ei greu / (ei ddefnyddio) ar ôl ad-dalu benthyciad** | **252** | **2,506** |

## Cysoni Gwargedion Net i Fewnlif Arian Net o Weithgareddau Gweithredu (Nodyn i)

| | Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2019 | | Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018 | |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Gwarged ar gyfer y flwyddyn** | | **6,843** | | **6,582** |
| **Addasiadau ar gyfer Eitemau sydd ddim yn arian parod:** | | | | |
| Dibrisiant Asedau Sefydlog Pendant | 6,198 | | 5,523 | |
| Lleihad / (Cynnydd) yn y stoc | (18) | | (4) | |
| Lleihad / (Cynnydd) mewn Dyledwyr Masnach ac Eraill | (362) | | 72 | |
| Cynnydd / (Lleihad) mewn Credydwyr Masnach ac Eraill | (922) | | 133 | |
| Cynnydd / (Lleihad) mewn Darpariaethau | - | | (287) | |
| Costau Pensiwn llai Cyfraniadau sy'n Daladwy | 1,029 | | 1,167 | |
| Cario Swm o Warediadau Asedau Sefydlog | 674 | | 192 | |
| | | 6,599 | | 6,796 |
| **Addasiadau ar gyfer Buddsoddi neu Weithgareddau Cyllido:** | | | | |
| Enillion o Werthu Asedau Sefydlog Pendant | (2,880) | | (1,339) | |
| Grantiau'r Llywodraeth wedi eu defnyddio yn ystod y Flwyddyn | (138) | | (103) | |
| Llog sy'n ddyledus | 3,798 | | 3,718 | |
| Llog wedi ei dderbyn | (10) | | (39) | |
| | | 770 | | 2,237 |
| **Arian Parod Net wedi ei greu o Weithgareddau Gweithredu** | | **14,212** | | **15,615** |

## Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol

## 1. PRIF BOLISIAU CYFRIFO

Mae Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) wedi ei ymgorffori yng Nghymru o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Gymunedol 2014 ac mae wedi cofrestru gyda Llywodraeth Cymru fel Darparwr tai cymdeithasol Cofrestredig. Mae CCG yn endid budd cyhoeddus a'i swyddfa gofrestredig yw Ty Coch, Llys y Dderwen, Parc Menai, Bangor, Gwynedd, LL57 4BL.

### Sail Cyfrifo

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn unol â Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (United Kingdom Generally Accepted Accounting Practice - UK GAAP) perthnasol a Datganiad o Arfer a Argymhellir ar gyfer darparwyr tai cofrestredig: Housing SORP 2014. Mae'r datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Gofynion Cyfrifo ar gyfer Penderfyniad Cyffredinol Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2015. Caiff y cyfrifon eu paratoi ar sail cost cyfrifo hanesyddol ac maent yn cael eu cyflwyno mewn punnoedd sterling. Heblaw ei fod yn cael ei nodi fel arall, caiff niferoedd eu nodi i'r £1,000 agosaf.

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn unol â FRS102.

### Busnes Gweithredol

Mae adolygiad o ragolygon, rhagdybiaethau a chynllun busnes hir dymor CCG yn dangos bod disgwyliad rhesymol bod gan y Gymdeithas adnoddau digonol i barhau i weithredu yn y dyfodol rhagweladwy. Mae'r datganiadau ariannol felly yn parhau i gael eu paratoi ar sail busnes gweithredol.

### Dyfarniadau a ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrif

Mae gofyn i reolwyr wneud dyfarniadau, amcangyfrif a thybiaethau wrth baratoi datganiadau ariannol sy'n effeithio ar y symiau sydd wedi eu hadrodd ar gyfer asedau ac atebolrwydd ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol a'r symiau sy'n cael eu hadrodd ar gyfer refeniw a chostau yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, mae natur tybiaethau yn golygu y gall y gwir ganlyniadau fod yn wahanol i'r hyn sydd wedi ei ragamcanu. Y dyfarniadau canlynol (heblaw am y rhai sy'n ymwneud â rhagamcanion) sydd wedi effeithio fwyaf ar symiau sydd wedi eu hadnabod yn y datganiadau ariannol:

- **Gwariant ar Ddatblygu.** Mae'r gymdeithas yn cyfalafu gwariant datblygu yn unol â pholisi cyfrifo sydd wedi ei ddisgrifio o dan "Asedau Sefydlog Pendant" ar dudalen 25. Mae cyfalafu costau cychwynnol yn seiliedig ar ddyfarniad rheolwyr bod cynllun datblygu yn cael ei gadarnhau, fel arfer pan fydd y Bwrdd wedi cymeradwyo mynediad i gyllido priodol ar ei gyfer. Wrth bennu a yw prosiect yn debygol o ddod i ben, mae rheolwyr yn monitro'r datblygiad ac yn ystyried a yw newidiadau wedi digwydd sy'n creu amhariad.

- **Categoreiddio tai**. Mae CCG wedi cynnal adolygiad manwl o'r defnydd a fwriedir o'i eiddo - daeth yr adolygiad i'r casgliad bod pob eiddo yn cael eu cadw er budd cymdeithasol.

Nid oes unrhyw ffynonellau allweddol o amcangyfrif ansicrwydd sydd â risg sylweddol o achosi addasiad materol yng ngwerth cario yr asedau ac atebolrwydd sy'n trosglwyddo i'r flwyddyn ariannol nesaf.

**Ffynonellau eraill allweddol o amcangyfrif a thybiaethau:**

- **Asedau Sefydlog Pendant.** Fel sy'n cael ei fanylu ar y dudalen nesaf, caiff asedau sefydlog pendant eu dibrisio yn ystod eu bywyd defnyddiol gan ystyried gwerthoedd gweddilliol y cyfrif lle bo'n briodol. Caiff gwir fywyd yr asedau a gwerthoedd gweddilliol eu hasesu yn flynyddol a gallant amrywio yn ddibynnol ar nifer o ffactorau. Wrth ail asesu bywydau ased, rhoddir ystyriaeth i ffactorau fel arloesi technolegol, cylchoedd bywyd cynnyrch a rhaglenni trwsio. Mae asesiadau gwerth gweddilliol yn rhoi ystyriaeth i faterion fel amodau'r farchnad yn y dyfodol, faint o fywyd sydd ar ôl i'r ased a gwerthoedd gwaredu sydd wedi eu rhagamcanu.

- **Darpariaeth Dyled Drwg.** Mae'r Gymdeithas yn amcangyfrif gwerth ad-enilladwy rhenti a symiau derbyniadwy eraill. Mae darpariaeth dyled drwg yn cael ei greu ar gyfer unrhyw symiau sy'n annhebygol o gael eu hadennill. Caiff y newid blynyddol yn y ddarpariaeth dyledion drwg ei gynnwys yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr, ac mae'r swm i'w ddarparu yn seiliedig ar asesiad o broffil oedran y ddyled, cyfraddau casglu hanesyddol a math o ddyled.

- **Pensiwn a buddion ôl-cyflogaeth eraill.** Caiff cost cynlluniau pensiwn budd wedi ei ddiffinio a buddion ôl-gyflogaeth eraill eu pennu gan ddefnyddio prisiant actwari. Mae'r prisiant actwari yn golygu gwneud tybiaethau am gyfraddau disgownt, cynyddiadau cyflog yn y dyfodol, cyfraddau marwolaethau a chynyddiadau pensiwn yn y dyfodol. Oherwydd cymhlethdod y prisiant, y tybiaethau gwaelodol a natur tymor hir y cynlluniau hyn, mae yna ansicrwydd mawr am yr amcanbrisiau hyn. Wrth bennu cyfradd disgownt priodol, mae rheolwyr yn ystyried cyfraddau llog bondiau corfforaethol yn yr arian priodol gydag o leiaf cyfradd AA, gydag allosodiad aeddfedrwydd yn cyfateb i hyd disgwyliedig y goblygiad budd sydd wedi ei ddiffinio. Caiff y bondiau eu hadolygu ymhellach i sicrhau ansawdd ac mae'r rhai lle mae yna amrywiaeth credyd gormodol yn cael eu tynnu o'r bondiau poblogaeth lle mae'r gyfradd ddisgownt yn seiliedig ar sail nad ydynt yn cynrychioli bondiau o ansawdd uchel. Mae'r gyfradd marwolaeth yn seiliedig ar y tablau cyfradd marwolaeth sydd ar gael yn gyhoeddus ar gyfer y sector benodol. Mae cynyddiadau cyflogau yn y dyfodol a chynyddiadau pensiwn yn seiliedig ar chwyddiant cyfraddau disgwyliedig ar gyfer y sector dan sylw. Mae manylion pellach yn nodyn 17.

- **Amhariad ar asedau nad ydynt yn asedau ariannol.** Caiff adolygiadau ar gyfer amhariad ar dai eu cynnal pan fydd triger yn codi a chaiff unrhyw golled

amhariad mewn uned sy'n creu arian ei gydnabod drwy godi tâl i'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr. Caiff amhariad ei gydnabod pan fydd gwerth llyfr uned sy'n creu arian yn uwch na'r gwerth net ellir ei wireddu neu ei werth mewn defnydd. Fel arfer, uned sy'n creu arian yw grŵp o eiddo ar lefel cynllun lle gall eu hincwm arian parod gael eu hadnabod ar wahân.

Yn dilyn triger ar gyfer amhariad, mae'r gymdeithas yn cynnal profion amhariad yn seiliedig ar gostau llai gwerth teg i werthu, neu gyfrifiad gwerth mewn defnydd. Mae'r cyfrifiad gwerth teg llai costau i werthu yn seiliedig ar ddata sydd ar gael o drafodion gwerthu mewn trafodyn hyd braich ar unedau (eiddo) tebyg sy'n creu arian neu brisiau'r farchnad llai costau cynyddol ar gyfer gwaredu'r eiddo. Mae'r cyfrifiad gwerth mewn defnydd yn seiliedig ar gost adnewyddu wedi ei ddibrisio neu fodel llif arian parod gyda disgownt. Mae'r gost adnewyddu wedi ei ddibrisio yn seiliedig ar ddata cost sydd ar gael drwy adeiladu neu gaffael eiddo yn lle rhai eraill i ddarparu'r un lefel o wasanaeth potensial i'r gymdeithas fel ac y mae'r eiddo presennol. Daw'r llif arian o'r cynllun busnes ar gyfer y 30 mlynedd nesaf ac nid yw'n cynnwys ailstrwythuro gweithgareddau nad yw'r gymdeithas eto wedi derbyn yr hawl i ymgymryd â hwy, na chwaith unrhyw fuddsoddiad sylweddol yn y dyfodol a fydd yn gwella perfformiad yr ased o ran yr uned creu arian sy'n cael ei brofi. Mae'r swm a ellir ei adennill ar ei fwyaf sensitif i'r gyfradd disgownt a ddefnyddir ar gyfer y model llif arian disgownt ynghyd â llif arian disgwyliedig a'r gyfradd dwf a ddefnyddir ar gyfer defnydd allosod.

Yn dilyn asesu amhariad, ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw golledion amharu yn y cyfnod adrodd dan sylw.

**Trosiant**

Mae trosiant yn cynnwys:

- Rhent a thâl gwasanaeth net tai gwag;
- Trwsio Ad-daladwy;
- Grantiau gan Lywodraeth Cymru;
- Ffioedd;
- Grantiau Refeniw.

**Asedau Sefydlog a dibrisiant**

Caiff eiddo eu dibrisio yn unol â Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (Statement of Recommended Practice - SORP) "Accounting by Registered Social Landlords".

Caiff tai sy'n ganol cael eu hadeiladu eu nodi ar gost ac nid ydynt yn cael eu dibrisio. Caiff y rhain eu hail ddosbarthu fel eiddo tai pan fydd y gwaith adeiladu wedi dod i ben.

Ni chaiff tir rhydd-ddaliol ei ddibrisio.

Caiff eiddo rhydd-ddaliol eu dibrisio gan gydran ar sail llinell syth dros gyfnod bywyd defnyddiol y categorïau o gydrannau.

Bywyd economaidd defnyddiol ar gyfer cydrannau sydd wedi eu hadnabod yw:

| Elfen | Blynyddoedd |
|---|---|
| Strwythurau | 80 mlynedd |
| Toi | 60 mlynedd |
| Ffenestri a Drysau | 30 mlynedd |
| Gwres canolog | 20 mlynedd |
| Ceginau | 15 mlynedd |
| Ystafell Ymolchi | 25 mlynedd |
| Weirio Trydanol | 30 mlynedd |
| Waliau a Gwaith Allanol Eraill | 50 mlynedd |
| Addasiadau'r Anabl | 10 mlynedd |
| Paneli Solar | 25 mlynedd |
| Blociau Cymunedol | 15 mlynedd |

Caiff dibrisiant ei godi dros fywyd defnyddiol disgwyliedig ased sy'n ymwneud â stadau a thiroedd eraill fel a ganlyn:

| Ased | Blynyddoedd |
|---|---|
| Ffensio | 40 mlynedd |
| Llwybrau | 30 mlynedd |
| Draenio | 30 mlynedd |
| Llefydd Parcio | 30 mlynedd |
| Golau Stryd | 20 mlynedd |

Caiff dibrisiant ei godi dros fywyd economaidd defnyddiol disgwyliedig asedau sefydlog eraill fel a ganlyn:

| Ased | Blynyddoedd |
|---|---|
| Swyddfeydd | 15 i 80 mlynedd |
| Modurdai | 30 i 60 mlynedd |
| Siopau | 15 i 80 mlynedd |
| Cerbydau a Pheiriannau | 3 mlynedd |
| Offer TG | 5 i 10 mlynedd |

**Stoc**

Caiff stociau o ddeunyddiau eu datgan ar y lleiaf o gost a net gwerth gellir ei wireddu sef y pris gwerthu tybiedig llai costau cwblhau a gwerthu. Mae cost yn seiliedig ar gost prynu ar sail cyntaf mewn cyntaf allan. Ar bob dyddiad adrodd caiff stoc ei asesu ar gyfer unrhyw amhariad. Os oes tystiolaeth o amhariad, caiff y gwerth ei leihau i'w bris gwerthu llai costau i gwblhau a gwerthu gyda'r golled amhariad yn cael ei gydnabod yn syth yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr.

### Tai Cymdeithasol a Grantiau eraill y Llywodraeth

Pan fo datblygiadau wedi eu hariannu i gyd neu'n rhannol gan grantiau tai cymdeithasol neu grantiau eraill, mae swm y grant sydd wedi ei dderbyn wedi ei gynnwys yn yr incwm gohiriedig ac wedi ei gydnabod yn y Trosiant dros ragamcan o fywyd defnyddiol y strwythur ased cysylltiol (dim tir) o dan y model cronni. Caiff y Grant Tai Cymdeithasol (GTC) a dderbynnir ar gyfer eitemau cost sydd wedi eu dileu yn y Datganiad Incwm Sylweddol ei gynnwys fel rhan o'r Trosiant. Mae elfen cyfalaf Grant Cyllid Tai 2 (Housing Finance Grant 2 - HFG2) yn dderbyniadwy dros 30 mlynedd ac mae wedi ei warantu ac felly caiff ei gydnabod fel Dyledwr sy'n daladwy ar ôl blwyddyn.

Pan fydd GTC neu HFG2 ar gyfer tai sy'n cael eu hadeiladu yn fwy na chyfanswm y gost ar gyfer yr eiddo hynny, caiff y gormodedd ei ddangos fel atebolrwydd presennol.

Rhaid i GTC a HFG2 gael ei ailgylchu o dan amodau penodol, os caiff eiddo ei werthu, neu os oes digwyddiad perthnasol arall. Yn yr achosion hyn, gellir defnyddio'r grant ar gyfer prosiectau sydd wedi eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, efallai y byddai'n rhaid ad-dalu'r grant os na chaiff amodau penodol eu cwrdd. Os nad oes gofyn am ailgylchu neu ad-dalu'r grant, caiff unrhyw grant sydd heb ei ddefnyddio gael ei gydnabod fel Trosiant. Mewn achosion penodol, efallai y bydd y grant yn ad-daladwy ac os felly mae'n ddyled israddol ad-daladwy heb ei ddiogelu.

### Croniad Tâl Gwyliau

Caiff atebolrwydd ei gydnabod ar gyfer unrhyw hawl i dâl gwyliau heb ei ddefnyddio sydd wedi ei gronni ar ddyddiad y Datganiad Sefyllfa Ariannol a'i gario ymlaen i gyfnodau eraill. Caiff ei fesur ar y gost cyflog heb ei ddisgowntio o'r hawl gwyliau yn y dyfodol wedi cronni ar ddyddiad y Datganiad Sefyllfa Ariannol.

### Trwsio, Cynnal a Chadw

Caiff costau trwsio a chynnal a chadw eu cydnabod fel wedi ei wario ar sail gwaith wedi ei wneud ar ddyddiad y Datganiad Sefyllfa Ariannol.

### Prydlesau Gweithredu

Caiff costau mewn perthynas â phrydlesau gweithredu eu codi i'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

### Treth ar Werth

Mae CCG wedi cofrestru ar gyfer TAW. Mae cyfran fawr o'i incwm gan gynnwys derbyniadau rhent wedi eu heithrio ar gyfer dibenion TAW. Pan nad oes posib ad-ennill TAW, caiff gwariant ar gyfer y gweithgareddau hyn eu dangos yn y cyfrifon gan gynnwys TAW. Mae CCG yn elwa o gael rhyddhad Lloches TAW sydd ar gael iddo, a felly caiff gwariant ar waith trwsio mawr ei ddangos ac eithrio TAW.

**Darpariaethau**

Caiff darpariaethau eu hadnabod lle mae ansicrwydd o ran amseru neu faint sydd ei angen i setlo atebolrwydd posib. Caiff unrhyw symiau ddarparwyd eu codi i'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr a'i gredydu i'r Datganiad Sefyllfa Ariannol yn seiliedig ar amcangyfrif gorau CCG o atebolrwydd posib.

**Pensiynau**

Mae gan CCG dri chynllun pensiwn:

Mae **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** (Local Government Pension Scheme - LGPS) yn gynllun budd diffiniedig wedi ei reoli gan Cyngor Gwynedd. Caiff cyfraniadau eu hasesu yn unol â chyngor gan actwari annibynnol cymwys. Caiff gwybodaeth benodol o ran asedau, atebolrwydd, incwm a gwariant yn ymwneud â'r cynllun LGPS eu datgan yn unol ag Adran 28 y Safon Adrodd Ariannol Rhif 102 - Buddion i'r Cyflogai.

Mae **Cynllun Pensiwn Tai Cymdeithasol** (Social Housing Pension Scheme - SHPS) a **Phensiwn y Pobl** (People’s Pension) yn gynlluniau cyfraniad diffiniedig. Caiff cyfraniadau eu codi i'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr yn seiliedig ar y gwir daliadau a wnaed i'r cynlluniau drwy gyfraniadau'r cyflogwr.

**Taliadau Gwasanaeth**

Mae CCG yn gweithredu taliadau gwasanaeth cyfraddau sefydlog ac amrywiol ar sail cynllun wrth gynllun gan ymgynghori’n llawn gyda phreswylwyr. Pan fydd tâl gwasanaeth amrywiol yn cael ei ddefnyddio bydd hyn yn cynnwys lwfans ar gyfer y gweddill neu ddiffyg o flynyddoedd blaenorol gyda'r gweddill yn cael ei ddychwelyd i breswylwyr drwy lai o dâl, a'r diffyg yn cael ei adennill drwy godi mwy o dâl. Hyd iddynt gael eu dychwelyd neu adennill byddant yn cael eu dal fel credydwyr neu ddyledwyr yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol.

Pan mae angen gwariant, gellir cronni darpariaeth dros y blynyddoedd mewn ymgynghoriad â phreswylwyr. Hyd y bydd y costau hyn wedi digwydd caiff yr atebolrwydd ei ddangos yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol o fewn credydwyr tymor hir.

**Incwm Cefnogol a chostau gan gynnwys incwm a chostau Cefnogi Pobl**

Caiff incwm cytundeb Cefnogi Pobl (CP) a dderbynnir gan Awdurdodau Gweinyddol ei gyfrifo fel incwm CP yn nhrosiant nodyn 3. Caiff y costau cefnogi perthnasol eu paru yn erbyn yr incwm yma yn yr un nodyn.

**Cyllid benthyciadau**

Mae dyled CCG wedi ei drin fel "sylfaenol" yn unol â pharagraffau 11.8 a 11.9 o FRS 102. Mae cymal torri dwy ffordd i rai benthyciadau cyfradd sefydlog h.y. yn ychwanegol i iawndal yn daladwy gan y sawl sy'n benthyg i fenthycwr os caiff benthyciad ei dalu ymlaen llaw pan fo'r prif gyfradd sefydlog yn is na’r gyfradd sefydlog presennol, gall iawndal fod yn daladwy gan y benthyciwr i’r

sawl sy'n benthyg os bydd benthyciad yn cael ei dalu ymlaen llaw a bod y brif gyfradd sefydlog yn uwch na'r gyfradd sefydlog bresennol.

Bu i'r Cyngor Adrodd Ariannol (FRC) roi datganiad ym Mehefin 2016 mewn perthynas â benthyciadau o'r fath heb unrhyw arweiniad penodol o ran a ddylent gael eu nodi fel "sylfaenol" neu "ddim yn sylfaenol". Ar y sail bod CCG yn credu bod cydnabod atebolrwydd pob dyled ar gost yn darparu sefyllfa fwy clir a dealladwy o sefyllfa ariannol y Gymdeithas a bod pob benthyciad yn parhau i fodloni'r gofynion ym mharagraffau 11.8 ac 11.9 o FRS 102, mae'r ffordd "sylfaenol" o ymdrin â'i ddyled wedi'i gadw yn dilyn cyhoeddiad FRC.

**Costau creu cyllid benthyciadau**

Caiff y rhain eu dileu yn wastad dros fywyd y benthyciad. Caiff benthyciadau eu nodi yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol ar gyfanswm y symiau net ar ôl cyhoeddi, gan ychwanegu cynyddiadau ar gyfer unrhyw symiau wedyn a gaiff eu dileu. Pan fydd benthyciadau yn cael eu tynnu i lawr yn ystod y flwyddyn, caiff unrhyw gosbau adbrynu ac unrhyw gostau creu benthyciad cysylltiedig eu cydnabod yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr yn y flwyddyn lle ddigwyddodd yr adbrynu.

**Trethiant**

Mae gan CCG statws elusennol ac felly nid yw'n atebol i dalu Treth Corfforaeth ar ei weithgareddau elusennol.

**Goblygiad Trosglwyddo Stoc**

Pan drosglwyddwyd y stoc yn 2010, ymrwymodd CCG i gytundeb i brynu'r eiddo gan Gyngor Gwynedd ac adnewyddu'r tai hynny. Mae'r ymrwymiadau sydd eto i'w cwblhau o'r cytundeb yn dod i sero ac mae SORP Tai 2014 yn gofyn bod gwerthoedd gros y goblygiadau hyn yn cael eu cydnabod. Mae'r Datganiad Sefyllfa Ariannol felly yn dangos yr asedau ac atebolrwydd perthynol fel dyledwyr a chredydwyr wedi eu rhannu yn oblygiadau yn disgyn o fewn un flwyddyn ac yn ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn. (Gweler hefyd nodiadau 10,12 ac 13.)

Gan fod yr asedau ac atebolrwydd yn cyd fynd, nid yw eu cydnabod yn gwneud unrhyw wahaniaeth i'r ffigwr net presennol ar gyfer asedau/atebolrwydd nac yn gwneud gwahaniaeth i gyfanswm Datganiad Sefyllfa Ariannol.

Mae CCG yn parhau i fuddsoddi mewn gwaith gwella ar ei dai, ac felly bydd goblygiadau trosglwyddo stoc yn lleihau yn flynyddol.

**Offerynnau ariannol**

Mesurir asedau ariannol ac atebolrwydd ariannol ar bris trafodyn i gychwyn, gan ychwanegu, yn achos asedau ariannol neu atebolrwydd ariannol nad ydynt ar werth teg trwy'r elw neu golled, gostau trafodion y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i gaffael neu ryddhau'r ased ariannol neu'r atebolrwydd ariannol.

Ar ddiwedd pob cyfnod adrodd, mae offerynnau ariannol yn cael eu mesur fel a ganlyn, heb unrhyw ddidyniadau ar gyfer costau trafodion gallai ddisgyn ar endid trwy werthu neu waredu eraill:

Caiff offerynnau dyled sy'n bodloni'r amodau ym mharagraff 11.8(b) o FRS102 eu mesur ar gost wedi ei hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol, ac eithrio lle mae'r trefniant yn drafodiad ariannu. Yn yr achos hwn, mesurir yr offeryn dyled ar werth presennol y taliadau yn y dyfodol wedi'i ddisgowntio ar gyfradd llog marchnad ar gyfer dyled tebyg.

**Mae Offerynnau ariannol a ddelir gan y Gymdeithas yn cael eu categoreiddio fel a ganlyn:**

- Mae asedau ariannol fel arian parod, buddsoddiadau asedau cyfredol a symiau derbyniadwy yn cael eu categoreiddio fel benthyciadau a symiau derbyniadwy, ac yn cael eu cadw ar gost wedi'i amorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol,
- Cedwir atebolrwydd ariannol fel bondiau a benthyciadau, ar gost wedi'i amorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol,

**Mae asedau ac atebolrwydd ariannol ar werth teg yn cael eu categoreiddio gan ddefnyddio'r hierarchaeth canlynol:**

(a) Tystiolaeth orau gwerth teg yw pris a ddyfynnir mewn marchnad weithredol.
(b) Os nad yw prisiau wedi'u dyfynnu ar gael, pris y trafodiad diweddar ar gyfer ased union yr un fath, wedi'i addasu i adlewyrchu unrhyw amgylchiadau gwerthu penodol, megis gorfod gwerthu, os ydi hynny'n briodol.
(c) Os nad oes marchnad weithredol neu drafodion diweddar, defnyddir techneg prisio i amcangyfrif pris y trafodyn ar y dyddiad mesur mewn cyfnewidiad hyd-braich o dan ystyriaethau busnes arferol.

## 2. TROSIANT, COSTAU GWEITHREDU A GWARGED

| | 2019 | | | 2018 Wedi ei Ail-gategoreiddio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Trosiant | Costau Gweithredu | Gwarged Gweithredu | Trosiant | Costau Gweithredu | Gwarged Gweithredu |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **GOSOD TAI CYMDEITHASOL (Nodyn 3)** | 34,390 | (26,144) | 8,246 | 32,318 | (23,336) | 8,982 |
| **GWEITHGAREDDAU TAI CYMDEITHASOL ERAILL** | | | | | | |
| Costau Datblygu wedi eu dileu | - | (32) | (32) | - | - | - |
| **GWEITHGAREDDAU TAI SYDD DDIM YN GYMDEITHASOL** | | | | | | |
| Gosod siopau a thiroedd eraill | 138 | (41) | 97 | 114 | (38) | 76 |
| Gosod modurdai i rai sydd ddim yn denantiaid | 120 | (49) | 71 | 126 | (45) | 81 |
| Prydleswyr | 6 | (6) | - | 61 | (61) | - |
| **CYFANSWM** | **34,654** | **(26,272)** | **8,382** | **32,619** | **(23,480)** | **9,139** |

Mae canlyniadau 2018 yn Nodiadau 2 a 3 wedi eu ail-gategoreiddio i adlewyrchu gweithgareddau CCG yn well, e.e. mae trafodion Prydleswyr yn cael eu dangos bellach fel gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â thai cymdeithasol, tra bod gweithgaredd Cefnogi Pobl bellach yn cael ei gynnwys o dan dai cymdeithasol.

## 3. MANYLION INCWM A GWARIANT O OSODIADAU TAI CYMDEITHASOL

| | 2019 | | | 2018 wedi ei Ail-gategoreiddio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Tai Cyffredinol | Tai Cefnogol | Cyfanswm | Tai Cyffredinol | Tai Cefnogol | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **INCWM** | | | | | | |
| Rhent a ellir ei dderbyn net tâl gwasanaethau sydd wedi eu hadnabod a net tai gwag | 27,553 | 1,259 | **28,812** | 26,102 | 1,369 | **27,471** |
| Incwm Tâl Gwasanaeth | 297 | 16 | **313** | 195 | 12 | **207** |
| **Rhent a ellir ei dderbyn** | **27,850** | **1,275** | **29,125** | **26,297** | **1,381** | **27,678** |
| Cefnogi Pobl | - | 334 | **334** | - | 319 | **319** |
| Grantiau Refeniw wedi eu derbyn | 4,088 | 214 | **4,302** | 3,865 | 235 | **4,100** |
| Grantiau Cyfalaf wedi eu defnyddio | 134 | - | **134** | 103 | - | **103** |
| Incwm Amrywiol | 471 | 24 | **495** | 112 | 6 | **118** |
| **TROSIANT O OSODIADAU TAI CYMDEITHASOL** | **32,543** | **1,847** | **34,390** | **30,377** | **1,941** | **32,318** |
| **GWARIANT GWEITHREDU** | | | | | | |
| Costau Tâl gwasanaeth | (1,390) | (567) | **(1,957)** | (1,789) | (367) | **(2,156)** |
| Rheoli | (8,358) | (438) | **(8,796)** | (7,935) | (713) | **(8,648)** |
| Cynnal a Chadw Arferol | (5,319) | (204) | **(5,523)** | (3,756) | (248) | **(4,004)** |
| Cynnal a Chadw wedi ei gynllunio | (3,372) | (33) | **(3,405)** | (2,827) | (28) | **(2,855)** |
| Colled rhent o ddyledion drwg | (195) | (10) | **(205)** | (188) | (11) | **(199)** |
| Dibrisiant Eiddo Tai | (5,674) | (363) | **(6,037)** | (4,959) | (388) | **(5,347)** |
| Gwariant Arall | (211) | (10) | **(221)** | (123) | (4) | **(127)** |
| **CYFANSWM GWARIANT GWEITHREDU O OSODIADAU TAI CYMDEITHASOL** | **(24,519)** | **(1,625)** | **(26,144)** | **(21,577)** | **(1,759)** | **(23,336)** |
| **GWARGED GWEITHREDU AR OSODIADAU TAI CYMDEITHASOL** | **8,024** | **222** | **8,246** | **8,800** | **182** | **8,982** |
| Colledion Eiddo Gwag - Tai | 410 | 22 | 432 | 361 | 25 | 386 |
| Colledion Eiddo Gwag - Modurdai a Siopau | 211 | 0 | 211 | 203 | 0 | 203 |
| **Colledion Eiddo Gwag - Cyfanswm** | 621 | 22 | **643** | 564 | 25 | **589** |

## 4. LLOG SY'N DALADWY A LLOG DERBYNIADWY

### a. Llog sy'n Daladwy a Thaliadau Tebyg

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Ar fenthyciadau | 3,587 | 3,603 |
| Tâl dim defnydd | 116 | 116 |
| Dychweliad Net ar Fuddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn | 95 | - |
| **CYFANSWM** | **3,798** | **3,719** |

### b. Llog a dderbynnir a Chostau Tebyg

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Ar fuddsoddiadau | 10 | 3 |
| Dychweliad Net ar Fuddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn | - | 36 |
| **CYFANSWM** | **10** | **39** |

## 5. GWARGED AR GYFER Y FLWYDDYN

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Caiff y gwarged gweithredu ar gyfer y flwyddyn ei nodi ar ôl: | | |
| Taliad Archwilwyr - yn eu gwaith fel archwilwyr | 17 | 17 |
| Taliadau Prydlesau Gweithredu | 589 | 480 |
| Dibrisiant Eiddo Tai | 6,037 | 5,345 |
| Dibrisiant Modurdai | 2 | 2 |
| Dibrisiant Asedau Eraill | 159 | 175 |

## 6. ASEDAU SEFYDLOG PENDANT (TAI)

| | Tai ar gyfer eu Gosod 2019 | Asedau yn cael eu hadeiladu 2019 | Gwaith ar y gweill 2019 | Cyfanswm 2019 |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Cost** | | | | |
| **Ar ddechrau'r flwyddyn** | **148,332** | **4,994** | **5,033** | **158,359** |
| Gwaredu | (649) | - | - | (649) |
| Trosglwyddo i Waith wedi ei Gwblhau | 10,027 | (4,994) | (5,033) | - |
| Ychwanegiadau | 654 | 11,185 | 8,508 | 20,347 |
| **Cost ar ddiwedd y flwyddyn** | **158,364** | **11,185** | **8,508** | **178,057** |
| **Dibrisiant ac Amhariad** | | | | |
| **Ar ddechrau'r flwyddyn** | **25,725** | **-** | **-** | **25,725** |
| Gwaredu | (123) | - | - | (123) |
| Cost am y flwyddyn | 6,037 | - | - | 6,037 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **31,639** | **-** | **-** | **31,639** |
| **Gwerth net yn y llyfrau** | | | | |
| Ar ddiwedd y flwyddyn | **126,725** | **11,185** | **8,508** | **146,418** |
| Ar ddechrau'r flwyddyn | **122,607** | **4,994** | **5,033** | **132,634** |

Mae Asedau yn cael eu hadeiladu yn cynrychioli eiddo adeiladu o'r newydd sy'n cael eu hadeiladu ac mae Ar y Gweill yn cynrychioli gwaith gwella sydd ar y gweill.

Mae pob eiddo heblaw am eiddo wedi eu hadeiladu o'r newydd neu gaffael ers 2015/16 wedi eu rhoi fel sicrwydd i Fanc Barclays fel rhan o'r cytundeb benthyg £82m.

## 7. ASEDAU SEFYDLOG PENDANT ERAILL

| | Swyddfeydd | Cerbydau | Cyfrifiaduron, Dodrefn ac offer Swyddfa | Cyfanswm 2019 |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost** | | | | |
| **Ar ddechrau'r flwyddyn** | **381** | **153** | **2,264** | **2,798** |
| Ychwanegiadau | - | - | 260 | 260 |
| Gwaredu | (75) | (63) | (343) | (481) |
| **Cost ar ddiwedd y flwyddyn** | **306** | **90** | **2,181** | **2,577** |
| **Dibrisiad** | | | | |
| **Ar ddechrau'r flwyddyn** | **143** | **153** | **1,860** | **2,156** |
| Tâl ar gyfer y flwyddyn | 11 | - | 148 | 159 |
| Gwaredu | (26) | (63) | (258) | (347) |
| Ar ddiwedd y flwyddyn | **128** | **90** | **1,750** | **1,968** |
| **Gwerth net yn y llyfrau** | | | | |
| Ar ddiwedd y flwyddyn | 178 | - | 431 | **609** |
| Ar ddechrau'r flwyddyn | 238 | - | 404 | **642** |

## 8. EIDDO BUDDSODDI

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Ar gychwyn y flwyddyn | 500 | 0 |
| Trosglwyddo o Asedau Sefydlog Pendant Eraill | 0 | 500 |
| **CYFANSWM** | **500** | **500** |

## 9. STOC

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Deunyddiau Uned Cynnal a Chadw | 95 | 76 |
| Talebau Budd Staff | 0 | 1 |
| **CYFANSWM** | **95** | **77** |

## 10. DYLEDWYR

| | 2019 £'000 | 2018 £'000 |
|---|---|---|
| **Dyledwyr o fewn Un flwyddyn:** | | |
| Ôl-ddyled Rhent a Thâl Gwasanaeth | 1,140 | 1,134 |
| Llai: Darpariaeth ar gyfer Dyled Drwg | (689) | (723) |
| | **451** | **411** |
| Dyledwyr Eraill a Blaendaliadau | 2,189 | 1,560 |
| Benthyciad Tir ar gyfer Tai | - | 250 |
| Goblygiad Trosglwyddo Stoc | 8,544 | 10,508 |
| **CYFANSWM** | **11,184** | **12,729** |
| **Dyledwyr ar ôl Un flwyddyn:** | | |
| Goblygiad Trosglwyddo Stoc | 50,315 | 58,386 |
| Grantiau Derbyniadwy | 3,269 | - |
| **CYFANSWM** | **53,584** | **58,386** |

## 11. ARIAN PAROD A CHYFWERTH AG ARIAN PAROD

| | 2019 £'000 | 2018 £'000 |
|---|---|---|
| **Adneuon Banc** | | |
| Cyfrifon Cadw Mynediad yn Syth | 4,192 | 2,910 |
| Cyfrif Banc Cyfredol ac Arian Parod wrth law | 28 | 27 |
| **CYFANSWM** | **4,220** | **2,937** |

## 12. CREDYDWYR : SYMIAU YN DDYLEDUS O FEWN BLWYDDYN

| | 2019 £'000 | 2018 £'000 |
|---|---|---|
| **Symiau yn ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Credydwyr masnach | 1,464 | 2,275 |
| Croniadau ac incwm wedi ei ohirio | 2,369 | 2,436 |
| Incwm Rhent a Gwasanaeth wedi ei dderbyn ymlaen llaw | 286 | 290 |
| Grantiau wedi eu derbyn ond heb eu defnyddio (Nodyn 13a) | 179 | 113 |
| Amrywiol | 9 | 11 |
| Goblygiad Trosglwyddo Stoc | 8,544 | 10,508 |
| **CYFANSWM** | **12,851** | **15,633** |

## 13. CREDYDWYR : SWM YN DDYLEDUS MEWN MWY NA BLWYDDYN

| | 2019 £'000 | 2018 £'000 |
|---|---|---|
| **Benthyciadau ddim yn ad-daladwy drwy ran-daliadau:** | | |
| Benthyciadau Cylchol | 19,000 | 19,000 |
| Rhwng 1 a 2 flynedd | 684 | - |
| Rhwng 2 a 5 mlynedd | 5,000 | 5,984 |
| Dros 5 mlynedd | 44,000 | 44,000 |
| **Is-gyfanswm** | **68,684** | **68,984** |
| | | |
| **Credydwyr Tymor Hir eraill:** | | |
| Grantiau wedi eu derbyn ond heb eu defnyddio (Nodyn 13a) | 18,425 | 6,534 |
| Goblygiad Trosglwyddo Stoc | 50,315 | 58,386 |
| **CYFANSWM** | **137,424** | **133,904** |

Caiff benthyciadau eu diogelu drwy daliadau penodol ar eiddo a thir y gymdeithas. Mae'r benthyciadau yn ad-daladwy ar gyfraddau amrywiol ac mae disgwyl iddynt gael eu talu'n ôl rhwng 2019 a 2034.

Proffil cyfradd llog benthyciadau ar 31 Mawrth 2019 oedd:

| | Cyfanswm £'000 | Cyfradd Amrywiol £'000 | Cyfradd Sefydlog £'000 | Cyfradd Cyfartaledd Pwysol % | Cyfartaledd Pwysol cyfnod Blynyddoedd |
|---|---|---|---|---|---|
| Benthyciadau yn ddyledus ar ôl > 1 mlynedd: | 68,684 | 19,684 | 49,000 | 5.10 | 11.6 |

Roedd gan y gymdeithas gyfleusterau heb eu tynnu i lawr o £13.3m gyda banc Barclays ar y 31 Mawrth 2019.

## 13a. GRANT CYFALAF WEDI EI OHIRIO

| | 2019 £'000 | 2018 £'000 |
|---|---|---|
| Ar gychwyn y flwyddyn | 6,647 | 4,370 |
| Grant a adnabuwyd yn y flwyddyn* | 12,091 | 2,380 |
| Wedi ei ryddhau i incwm | (134) | (103) |
| Ar ddiwedd y flwyddyn | **18,604** | **6,647** |
| | | |
| **Credydwyr :** | | |
| Swm i'w ryddhau < 1 flwyddyn | 179 | 113 |
| Swm i'w ryddhau > 1 flwyddyn | 18,425 | 6,534 |
| | **18,604** | **6,647** |

* Cafodd pob grant a gafodd eu hadnabod yn ystod 2019 eu darparu gan Lywodraeth Cymru ar ffurf Grant Tai Cymdeithasol a HFG2 ar gyfer cynlluniau Adeiladu o'r Newydd.

## 14. DARPARIAETHAU

Pan mae darpariaethau yn cael eu creu, mae amseru yr all-lif arian sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth yn ansicr, ond mae disgwyl i hyn ddigwydd yn y 12 mis nesaf.

Nid oedd gan y Gymdeithas unrhyw ddarpariaethau o fewn y flwyddyn.

## 15. CYFALAF CYFRANNAU DDIM YN ECWITI

| | 2019 | 2018 Ailddatgan |
|---|---|---|
| Cyfran o £1 yr un, wedi ei dalu yn llawn a rhannu ar ei werth llawn | £ | £ |
| **Ar 1 Ebrill** | **46** | **46** |
| Cyfranddaliadau wedi eu rhoi yn ystod y flwyddyn | 2 | 3 |
| Ymddiswyddiadau yn ystod y flwyddyn | (1) | (3) |
| **Ar 31 Mawrth** | **47** | **46** |

## 16. YMRWYMIADAU CYFALAF

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Gwariant cyfalaf sydd wedi ei gytundebu ar ei gyfer ond nad oes darpariaeth ar ei gyfer yn y datganiadau ariannol | 13,886 | 8,239 |
| Gwariant cyfalaf sydd wedi ei awdurdodi gan y pwyllgor rheoli ond heb ei gytundebu eto | 1,294 | 5,982 |
| **CYFANSWM** | **15,180** | **14,221** |

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Ffynonellau ariannu disgwyliedig: | | |
| Cyfleusterau benthyg wedi eu hymrwymo | 6,641 | 9,420 |
| Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru | 8,539 | 4,801 |
| **CYFANSWM** | **15,180** | **14,221** |

## 17. PENSIWN

Mae gan CCG dri chynllun pensiwn:

**Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL)**

Mae Cynllun Pensiwn Cyngor Gwynedd yn gynllun budd wedi ei ddiffinio yn seiliedig ar gyflog terfynol. Roedd rhai gweithwyr penodol CCG yn cymryd rhan yn y cynllun cyn trosglwyddo stoc ac felly cafodd asedau neu atebolrwydd sydd ynghlwm â'r unigolion hyn ei adnabod ar y dyddiad trosglwyddo h.y. 12 Ebrill 2010. Fel rhan o'r cytundeb trosglwyddo, mae atebolrwydd am ran o'r ddyled sy'n ymwneud â'r gweithwyr hyn sy'n ymwneud â'r cyfnod cyn trosglwyddo yn disgyn ar Gyngor Gwynedd.

Mae'r enillion a cholledion sy'n cael eu hadnabod gan CCG felly yn ymwneud yn llwyr â'r cyfnod trosglwyddo.

Cafodd y prisiant fwyaf diweddar ei wneud ar y 31 Mawrth 2016 ac mae wedi ei ddiweddaru gan actwari annibynnol i'r cynllun i ystyried gofynion FRS 102 er mwyn asesu atebolrwydd y gronfa ar 31 Mawrth 2019. Caiff atebolrwydd ei brisio ar sail actwari gan ddefnyddio'r dull uned sy'n cael ei ragdybio sy'n asesu atebolrwydd yn y dyfodol wedi ei ddisgowntio i'w gwerth presennol. Cyfraddau cyfraniadau CCG o 1 Ebrill 2018 i 31 Mawrth 2019 oedd 17.0% o dâl pensiynadwy aelodau. (17.0% yn 2017/18)

Y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actwari cymwys annibynnol wrth ddiweddaru'r prisiannau diweddaraf y gronfa ar gyfer diben FRS102 oedd:

| **Disgwyliad Cyfartalog Bywyd yn 65 mlwydd oed** | **Dynion** | **Merched** |
|---|---|---|
| Pensiynwyr Presennol | 22.0 mlynedd | 24.2 mlynedd |
| Pensiynwyr y dyfodol | 24.0 mlynedd | 26.4 mlynedd |

| | **% y flwyddyn 2019** | **% y flwyddyn 2018** |
|---|---|---|
| Cyfradd Cynnydd Pensiwn | 2.4% | 2.3% |
| Cyfradd Cynnydd Cyflog | 2.4% | 2.3% |
| Dychweliad Disgwyliedig ar Asedau | 2.5% | 2.7% |
| Cyfradd Disgownt | 2.5% | 2.7% |

| | % y flwyddyn 2019 | Gwerth ar y Farchnad 2019 £'000 | % y flwyddyn 2018 | Gwerth ar y Farchnad 2018 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Dychweliad Disgwyliedig ar Asedau** | | | | |
| Ecwitiau | 2.5 | 15,010 | 2.7 | 13,146 |
| Bondiau | 2.5 | 0 | 2.7 | 0 |
| Eiddo | 2.5 | 2,028 | 2.7 | 1,441 |
| Arian Parod | 2.5 | 3,245 | 2.7 | 3,421 |
| | | **20,283** | | **18,008** |

Cafod y symiau canlynol eu mesur yn unol â gofynion FRS102:

| | 2019 £'000 | 2018 £'000 |
|---|---|---|
| Gwerth Teg o Asedau Cyflogwr | 20,283 | 18,008 |
| Gwerth Presennol 'Defined Benefit Obligation' | (25,694) | (21,029) |
| **Cyfanswm (Atebolrwydd) / Asedau y Cynllun** | **(5,411)** | **(3,021)** |

Roedd symudiad yn y gweddill net fel a ganlyn:

| | 2019 £'000 | 2018 £'000 |
|---|---|---|
| Cyfraniadau wedi eu talu | 966 | 972 |
| Costau Gwasanaeth Presennol | (1,995) | (2,046) |
| Costau Gwasanaeth yn y Gorffennol | - | (93) |
| Is-gyfanswm | (1,029) | (1,167) |
| Costau Llog ar Rwymedigaeth Buddiannau Diffiniedig | (591) | (543) |
| Incwm Llog ar Asedau'r Cynllun | 496 | 579 |
| Cynnydd / (Colled) Actwari | (1,266) | 651 |
| **Symudiad Net yn ystod y Flwyddyn** | **(2,390)** | **(480)** |

| | 2019 £'000 | 2018 £'000 |
|---|---|---|
| Ased / (Atebolrwydd) Net ar Gychwyn y Flwyddyn | (3,021) | (2,541) |
| Symudiad Net yn ystod y Flwyddyn | (2,390) | (480) |
| **Ased / (Atebolrwydd) Net ar ddiwedd y Flwyddyn** | **(5,411)** | **(3,021)** |

**Cynllun Pensiwn Tai Cymdeithasol (Social Housing Pension Scheme - SHPS)**
Mae CCG yn cynnig hefyd cynllun Cyfraniad Diffiniedig trwy SHPS. Roedd 88 o aelodau yn cyfrannu i'r cynllun ar y 31 Mawrth 2019. Cyfraniadau gweithwyr yn ystod y flwyddyn oedd £111,731. Gan mai dim ond cynllun cyfraniad wedi ei ddiffinio yw hwn, mae atebolrwydd CCG wedi'i gyfyngu i werth y cyfraniadau sydd wedi eu gwneud.

**The People's Pension**
Mae CCG yn gweithredu cynllun Cyfraniad Diffiniedig ar gyfer 7 gweithiwr a drosglwyddodd i CCG drwy drefniant TUPE. Cyfraniadau gweithwyr yn ystod y flwyddyn oedd £1,579. Gan mai dim ond cynllun cyfraniad wedi ei ddiffinio yw hwn, mae atebolrwydd CCG wedi'i gyfyngu i werth y cyfraniadau sydd wedi eu gwneud.

## 18. CYFLOGAU PERSONEL RHEOLI ALLWEDDOL

| | 2019<br>£ | 2018<br>£ |
|---|---|---|
| Cyfanswm tâl wedi ei dalu neu dderbyn gan Gyfarwyddwr a chyn Gyfarwyddwyr nad ydynt yn weithredol | 6,180 | - |
| Cyfanswm tâl wedi ei dalu neu dderbyn gan Gyfarwyddwyr presennol a blaenorol | 500,918 | 503,593 |
| Cyfanswm tâl wedi ei dalu i'r Cyfarwyddwr a delir fwyaf ac eithrio cyfraniadau pensiwn | 133,685 | 131,048 |
| Cyfanswm unrhyw iawndal wedi ei dalu i Gyfarwyddwyr a chyn Gyfarwyddwyr yn ystod y flwyddyn gyfrifo. | - | - |
| Cyfanswm swm pensiwn Cyfarwyddwr presennol a rhai blaenorol ac eithrio symiau yn daladwy o dan gynllun pensiwn wedi ei ariannu yn briodol. | - | - |
| Cyfanswm unrhyw ystyriaeth daladwy i drydydd parti neu'n dderbyniadwy ganddynt am roi gwasanaethau Cyfarwyddwr. | - | - |

Dechreuodd CCG dalu Cyfarwyddwyr anweithredol o'r 1af o Ionawr 2019. Yn seiliedig ar gyngor gan ymgynghorwyr annibynnol, pennwyd lefelau tâl blynyddol aelodau Bwrdd cymwys fel £9,000 ar gyfer y Cadeirydd, £5,000 ar gyfer yr is-gadeirydd a chadeiryddion pwyllgorau, a £4,000 ar gyfer pob aelod arall.

Mae'r Prif Weithredwr yn aelod cyffredin o'r cynllun pensiwn. Mae pensiwn y Prif Weithredwr yn gynllun budd wedi ei ddiffinio wedi ei ariannu drwy gyfraniadau blynyddol gan y cyflogwr a'r gweithiwr. Nid oes unrhyw delerau gwell nac arbennig yn gymwys. Nid oes yna unrhyw drefniadau pensiwn ychwanegol.

Caiff personél rheoli allweddol eu diffinio fel aelodau'r Bwrdd, y Prif Weithredwr ac unrhyw un arall sy'n aelod o'r Tîm Rheoli Gweithredol neu ei gyfwerth.

## 19. GWYBODAETH GWEITHWYR

| Nifer y bobl a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn wedi ei ddangos mewn oriau llawn amser (37 awr yr wythnos) oedd: | 2019 Nifer | 2019 Cyfartaledd | 2018 Nifer | 2018 Cyfartaledd |
|---|---|---|---|---|
| Staff Swyddfa | 190 | 179 | 180 | 180 |
| Gweithwyr Llaw | 93 | 83 | 66 | 61 |
| Wardeniaid, gofalwyr a glanhawyr | 6 | 6 | 5 | 6 |
| **CYFANSWM** | **289** | **268** | **251** | **247** |

| | 2019 £'000 | 2018 Wedi ei ail-gategoreiddio £'000 |
|---|---|---|
| Cyflogau | 8,190 | 7,322 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 765 | 685 |
| Costau Pensiwn | 1,056 | 1,013 |
| Symudiad Pensiwn LGPS (Nodyn 17) | 1,029 | 1,167 |
| **CYFANSWM** | **11,040** | **10,187** |

Nifer personél rheoli allweddol lle oedd eu cyflog (h.y. gan gynnwys pensiwn) yn fwy na £50,000 yn ystod y cyfnod:

| | Rhif |
|---|---|
| £110,001 i £120,000 | 3 |
| £150,000 i £160,000 | 1 |

## 20. PRYDLESAU GWEITHREDU

Mae gan y gymdeithas eiddo, cerbydau ac offer swyddfa o dan brydlesau gweithredu na ellir eu canslo. Ar y 31 Mawrth 2019, roedd isafswm ymrwymiadau taliadau prydles yn y dyfodol fel y nodir isod:

| | 2019 £'000 | 2019 £'000 | 2018 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Tir ac Adeiladau:** | | | |
| O fewn y flwyddyn nesaf | 177 | | 144 |
| Yn yr ail i bumed flwyddyn | 648 | | 228 |
| Mewn mwy na phum mlynedd | 698 | | 256 |
| | | 1,523 | 628 |
| **Eraill:** | | | |
| O fewn y flwyddyn nesaf | 289 | | 295 |
| Yn yr ail i bumed flwyddyn | - | | 28 |
| Mewn mwy na phum mlynedd | - | | - |
| | | 289 | 323 |
| | | **1,812** | **951** |

## 21. STATWS TRETHIANT

Mae gan y Gymdeithas statws elusennol.

## 22. EIDDO YM MHERCHNOGAETH, YN CAEL EU RHEOLI A'U DATBLYGU

| **Dan reolaeth ar ddiwedd y flwyddyn:** | **2019 Rhif** | **2018 Rhif** |
|---|---|---|
| Tai | 5,989 | 5,931 |
| Tai â chymorth | 314 | 361 |
| Is-gyfanswm | **6,303** | **6,292** |
| **Yn cael eu datblygu ar ddiwedd y flwyddyn** | 178 | 26 |
| Cyfanswm | **6,481** | **6,318** |

## 23. TRAFODION PARTION CYSYLLTIEDIG

Cyfansoddiad y Bwrdd yw 2 Gynghorydd, 4 Tenant a 6 Aelod Annibynnol.

Mae gan yr aelodau tenantiaid fel arfer denantiaeth sicr wedi ei amddiffyn ac ni allant ddefnyddio eu safle i gael unrhyw fantais. Cyfanswm rhent wedi ei godi ar aelodau Tenantiaid y Bwrdd yn 2018/19 oedd £9,543 (2018: £13,619). Doedd dim ôl-ddyledion ar eu tenantiaethau ar ddiwedd y cyfnod adrodd (2018: dim).

Crynhoir y trafodion a ddigwyddodd rhwng Cyngor Gwynedd a CCG yn ystod y flwyddyn 31 Mawrth 2019 fel â ganlyn:

Anfonebau a dderbyniwyd gan Gyngor Gwynedd ar gyfer gwasanaethau a ddarperir o dan delerau masnachol: £777,915 gyda £88,240 (o dan delerau talu 30 diwrnod arferol) yn ddyledus ar 31 Mawrth 2019.

Cyfanswm anfonebau a anfonwyd o dan delerau masnachol i Gyngor Gwynedd (yn bennaf mewn perthynas ag incwm Cefnogi Pobl a chyfraniadau at waith cyfalaf) oedd £926,255 gyda £127,532 yn ddyledus i CCG ar 31 Mawrth 2019. Derbyniwyd £14,574,200 pellach gan Gyngor Gwynedd ar gyfer cyfraniadau Budd-dal Tai i 31 Mawrth 2019.

## 24. GRANT A CHEFNOGAETH ARIANNOL

| Cyfanswm grant Llywodraeth a gronnir a chymorth ariannol a dderbyniwyd neu a oedd yn dderbyniadwy ar 31 Mawrth 2019 | Grant Tai Cymdeithasol / HFG2 | Effeithiolrwy-dd Ynni ac Adnewyddu | Cefnogi Pobl | Arall |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Yn cael ei gadw fel grant cyfalaf wedi'i ohirio | 17,798 | 806 | - | - |
| Wedi'i gydnabod fel incwm yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr yn y flwyddyn | 336 | - | 334 | 0 |
| | **18,134** | **806** | **334** | **0** |

## 25. ASEDAU ARIANNOL AC ATEBOLRWYDD

Roedd gan CCG yr offerynnau ariannol canlynol:

| | **2019** | **2018** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| **Asedau ariannol wedi eu mesur ar gost hanesyddol** | | |
| **Am y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth** | | |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 4,220 | 2,937 |
| Dyledwyr masnachol | 707 | 411 |
| Dyledwyr eraill | 1,933 | 1,810 |
| **CYFANSWM** | **6,860** | **5,158** |
| **Atebolrwydd ariannol** | | |
| **Am y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth** | | |
| Benthyciadau taladwy (wedi mesur ar gost amorteiddio) | 68,684 | 68,984 |
| Credydwyr masnachol (wedi mesur ar gost amorteiddio) | 1,464 | 2,275 |
| Credydwyr eraill (wedi mesur ar gost amorteiddio) | 2,843 | 2,850 |
| **CYFANSWM** | **72,991** | **74,109** |
| **Cytundeb datblygu** | | |
| **Am y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth** | | |
| Gwerth ymrwymiad Cyngor Gwynedd i wneud gwaith adnewyddu | 58,859 | 68,894 |
| Gwerth ymrwymiad CCG i wneud gwaith trwsio sylweddol ar ran Cyngor Gwynedd | (58,859) | (68,894) |
| **CYFANSWM** | - | - |

## 26. YMGYMERIADAU'R GRŴP

I hwyluso twf y gwasanaethau a gaiff eu cynnig gan CCG (gan gynnwys gwasanaethau a all fod y tu hwnt i amcanion elusennol craidd y sefydliad) mae'r is-gwmni "Medra" sydd ym mherchnogaeth lwyr CCG wedi'i ymgorffori. Cafwyd y caniatâd gofynnol gan Lywodraeth Cymru a chafodd y cwmni newydd ei gofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau ym mis Ebrill 2017. Nid yw'r cwmni wedi masnachu eto ac roedd yn segur yn ystod 2018/19. Rhagwelir y bydd yn cychwyn gweithredu fel datblygwr tai i'w gwerthu ar y farchnad yn ystod ail hanner 2019/20.